# Y DINESYDD

Medi 2025 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 500 £1.50


# Rhifyn 500



Llun: Yr Eisteddfod Genedlaethol

Coroni Owain Rhys
ac ymateb Jim Parc Nest
i lwyddiant ei lys-fab

Y Dinesydd yn edrych yn ôl
ac yn edrych ymlaen

Colofnau Rheolaidd
a llawer mwy

# Y DINESYDD

**Golygyddion**
**Eirian a Gwilym Dafydd**

***Golygydd Hydref***
***Ela Pari Huws***

Cyfraniadau erbyn **27 Medi** at:
ydinesydd@hotmail.com

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Dr David Charles
david.charles1040@gmail.com
7 Vaughan Avenue, Llandaf,
Caerdydd, CF5 2HR

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

e-bost:
ydinesydd@hotmail.com

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Rhifyn 500

Croeso cynnes i rifyn 500 o'r *Dinesydd*. Tipyn o gamp yn wir, yn enwedig mewn dyddiau pan glywn fod rhai papurau bro yn diflannu o'r tir.

Yn y rhifyn hwn, bydd ychydig o edrych yn ôl. Mae'r Athro E. Wyn James yn bwrw golwg ar rai o drigolion Shirley Road yn y Rhath, stryd sydd â chysylltiadau agos a chychwyniad ein papur bro, (tud.16-18). Mae Gwilym Dafydd yn nodi lle gwelir rhifynnau allweddol yn ein hanes (tud.11), tra bo Annell Dyfri, un o aelodau ieuengaf y pwyllgor, yn edrych ymlaen i'r dyfodol (tud.25).

Diolch yn fawr i Aron Pritchard, beirniad Pobol y Rhigwm, am englyn hyfryd i gyfarch y garreg filltir hon yn hanes ein papur bro.

## Rhifyn 500

Pob pwt yn dwt, at ein dant, yn nythu
mewn iaith a diwylliant,
fe ganaf ei ogoniant
am mai cŵl yw rhif pum cant.

*Aron Pritchard*

**Nid yw pwyllgor *Y Dinesydd* o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr.**

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**IECHYD DA**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

# Colofn G.R.



## *Mae'r rhan fwyaf ohonom yn ôl yn y tresi erbyn hyn*

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol drosodd bellach am flwyddyn arall a thebyg iawn erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o bobl nôl yn y tresi wedi'r saib dros wyliau'r haf ac yn barod i wynebu tymor prysur arall o rwan tan y Nadolig. Mae'n debyg mai hwn ydy'r pum canfed rhifyn o'r *Dinesydd* ers i'r rhifyn cyntaf ymddangos nôl yn Ebrill 1973 diolch i weledigaeth Merêd. Ers hynny mae degau o bapurau bro eraill wedi codi ledled Cymru o ganlyniad i sefydlu'r *Dinesydd*. Golygydd cyntaf *Y Dinesydd* odd brodor o'r enw Norman Williams odd yn hannu o'r Gogledd ac yn byw yn Rhiwbeina ar y pryd. Fe'i cynorthwywyd gan bobl megis Cen Williams, Shân Emlyn, David Meredith, Michael Jones, Robin Jones a byth oddi ar 1973 mae'r *Dinesydd* wedi ymddangos yn gyson ac yn cofnodi hanes y Cymry Cymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro. Ar hyn o bryd mae tua phum cant yn prynu ac yn darllen *Y Dinesydd* o fis i fis ond mae dros 40,000 o siaradwyr yr iaith yn byw yn y parthau hyn ac felly mae'n siomedig braidd nad ydy'r cylchrediad yn llawer llawer mwy. Ond diolch i'r ffyddloniaid sy'n gweld gwerth yn y papur a phob dymuniad da i'r pwyllgor presennol am eu gwaith caled sy'n sicrhau parhad i bapur bro hynaf Cymru.

Unwaith eto cafwyd chwip o Eisteddfod yn Wrecsam a thyrrodd y miloedd iddi i fwynhau gwledd o ddigwyddiadau yn ystod yr wythnos a bu'r tywydd hyd yn oed yn ddigon caredig am unwaith! Daeth nifer o wobrau pwysig yr Ŵyl i Gaerdydd hefo Owain Rhys o'r Tyllgoed yn cipio'r Goron a Greta Siôn yn cipio'r Fedal Ddrama a Nansi Rhys Adams yn ennill dwy wobr sef un am Fonolog ac un am ganu cân Sioe Gerdd a llongyfarchiadau i bawb arall a ddaeth â chlod i'r ardaloedd hyn.

Credir y cofier Eisteddfod y llynedd am yr holl emosiwn a ddangoswyd pan daeth y cyn bostfeistr Noel Thomas o Fôn i'w dderbyn yn aelod o'r Orsedd ac yntau wedi ei garcharu ar gam am ddwyn arian o Swyddfa'r Post. Cododd pawb yn y pafiliwn ar eu traed i'w gymeradwyo. Yna digwyddodd rhywbeth tebyg yn Wrecsam yn ystod Seremoni'r Cadeirio pan enillodd Tudur Hallam am ei gerdd fuddugol yn sôn am ei frwydr yn erbyn canser. Cododd pawb ar eu traed i ddangos cefnogaeth iddo gan obeithio am wellhad iddo.

Un a gafodd wellhad o ganser yn yr haf odd y canwr poblogaidd Rhys Meirion a gafodd lawdriniaeth am ganser y coluddyn a'r newyddion da ei fod yn holliach unwaith eto sydd yn caniatau iddo i ymweld â'r Wladfa yn Nhachwedd yng nghwmni y grŵp hynod o dalentog PEDAIR a chriw o gefnogwyr â'u nôd o godi arian i'r tair ysgol Gymraeg/Sbaeneg yn Nyffryn Camwy a'r Andes. Mae gwledd o ganu yn aros pobl Patagonia yn sicr!

Eleni mae'r Wladfa yn dathlu 160 o flynyddoedd ers ei sefydlu pan laniodd y Cymry ym Mhatagonia ar yr 28 o Orffennaf 1865 a byth oddi ar hynny dethlir yr achlysur mewn gŵyl sef Gŵyl y Glaniad draw ym Mhatagonia ac yma yng Nghymru. Gorffennaf diwethaf cynhaliwyd Gŵyl y Glaniad yng Nghaerdydd am y tro cyntaf ers amser a daeth tua hanner cant ynghyd i fwynhau pryd o fwyd, a sgwrsio am y Wladfa a gwrando ar Delwyn Siôn yn canu. Odd dau o'r Wladfa yn bresennol sef Alun Iâl Jones o'r Andes a Clair Vaughan gynt o ardal Wrecsam ond wedi byw yn yr Andes ers ugain mlynedd a hi sy'n cydlynu y Cynllun Dysgu Cymraeg yn y Wladfa a chafodd hi ei derbyn i Orsedd Cymru yn Wrecsam i gydnabod ei gwaith dros y Gymraeg draw yn y Wladfa.

Yn ystod yr haf collwyd tri arall o'n sêr ym myd cerddoriaeth a chyfeirio ydw i at farwolaeth Annette Bryn Parry y cyfeilydd a'r pianydd disglair, ac yna y tenor enwog ym myd yr opera Stuart Burrows, gynt o Gilfynydd, a fu'n byw yn yr un stryd â chanwr opera enwog arall sef Syr Geraint Evans ac yn olaf Iris Williams gynt o Bontypridd hefo'i llais hudolus a chofir hi am ei dehongliad o'r emyn *Pererin Wyf* ar y dôn *Amazing Grace*. Bu farw draw yn yr Unol Daleithiau ond ymfalchiodd yn ei Chymreictod er yn byw ymhell o Gymru.

Yn olaf y tro hwn rhaid sôn am ddigwyddiad o bwys mawr i filoedd o deuluoedd pan ar y 25 o Orffennaf 1978 ganwyd Louise Joy Brown sef y babi cyntaf a anwyd drwy'r driniaeth IVF a hynny diolch i waith arbrofol a chwyldroadol dros y blynyddoedd dri o wyddonwyr sef Robert Edwards, Patrick Steptoe a Jean Purdy. Mae'r hanes yn rhyfeddol mewn gwirionedd a chredir ar hyn o bryd bod tua 12 miliwn - ie 12 miliwn, o blant wedi dod i'n byd o ganlyniad i waith arloesol y gwyddonwyr hyn.

Mae'r piser yn llawn unwaith eto ac felly rhaid aros am fis arall cyn adrodd rhagor o hanesion am Gaerdydd a'r Fro, Cymru a'r byd! Tan hynny hwyl fawr!

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***
**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**
**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Coron 2025

*Llongyfarchiadau mawr i Owain Rhys ar ennill coron Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam am gerddi sensitif a chynnil am ei fam. Yma y mae'n egluro yr ysbrydoliaeth tu cefn i'r cerddi ac yn rhoi blas i ni o'r seremoni goroni.*

Roeddwn wedi dechrau sgwennu cerddi am ddementia mam cyn deall beth oedd testun y goron. Roedd yn ddull o gofnodi profiad y teulu, a fy mhrofiad personol i, er mwyn rhoi trefn a synnwyr ar y sefyllfa. Nid oeddwn yn hyderus o gwbl o'r cynnwys gan fod yr arddull yn foel ac efallai'n rhy gynnil, ond pan ddangosais y cerddi cyntaf i Lleucu, fy ngwraig, roedd ei hymateb yn annisgwyl o emosiynol. Rhoddodd hyn yr hyder imi gario 'mlaen, ac erbyn hyn roeddwn wedi sylweddoli eu bod yn hollol destunol ar gyfer y Goron.

Cerddi am fynd am dro sydd yma, yn llythrennol a ffigyrol. Maen nhw'n seiliedig ar brofiadau gwir, ond rwyf wedi eu plethu ag atgofion mam o'i phlentyndod, fy atgofion innau, menywod hanesyddol neu chwedlonol, delweddau o erddi ac archaeoleg, caneuon pop, ac adfeilion. Roedd y broses greu yn eithaf organic, ond bu misoedd hir o fireinio, tocio, cymenu, a chywiro cyn imi eu hanfon at yr Eisteddfod. Bu ambell ddeigryn pan oeddwn yn dangos y cerddi i fy mhlant neu rai o'r teulu agos.

Roeddwn wedi darbwyllo fy hun nad oedd gen i obaith ennill, felly pan ddaeth yr alwad gan yr Eisteddfod, roedd yn sioc enfawr. Roeddwn yn y car rhwng Sain Ffagan a'r Tyllgoed, a bu'n agos imi gael crash! Yna, roedd wythnosau hir o gadw'r gyfrinach, tra'r un pryd yn ceisio amseru dweud wrth aelodau'r teulu fel eu bod yn gallu gwneud trefniadau i fod yn bresennol. Fe ymwelais â gweithdy Neil Rayment ac Elan Rowlands, gwneuthurwyr y goron, er mwyn cael mesur fy mhen. Pan welais y goron am y tro cyntaf, sylweddolais fy mod wedi bod yn hynod lwcus – dyma'r goron harddaf imi ei gweld erioed.

Yn araf, araf, fe ddaeth y dydd. Roeddwn wedi mynd drwy bob emosiwn posibl yn yr wythnosau'n arwain at hyn, yn poeni fy mod yn mynd i ddweud rhywbeth gwirion yn gyhoeddus ac ati. Roeddwn yn hynod nerfus yn y Pafiliwn, ond pan godais ar fy nhraed ar alwad y cyrn gwlad, daeth ryw don o dawelwch drosof, a phenderfynais fwynhau'r foment, moment na chai ei phrofi eto, fwy na thebyg. Roedd bod yn rhan o seremoni yr oeddwn mor gyfarwydd â hi yn hollol swreal, fel bod tu allan fy nghorff yn edrych lawr.

Gwibiodd yr awr neu ddwy nesaf heibio mewn cyfres o gyfweliadau, cwtshys, llongyfarchiadau, a llawenydd. Wedyn aeth fy nheulu innau a theulu fy chwaer am bryd o fwyd yn Wrecsam, cyn mynd nôl i'n gwersyll eco, ac yfed gwin o amgylch y tân tan oriau mân y bore. Y diwrnod canlynol ar y Maes, cefais ychydig o sioc faint o bobl ddaeth ataf yn eu dagrau'n dweud diolch am sgwennu'r cerddi, ac eu bod hwythau wedi mynd trwy'r un profiad. Roedd yn galondid fy mod wedi gallu cynnig ychydig o gysur iddynt trwy fy ngeiriau.

Erbyn hyn, rwyf nôl mewn realiti, ond ambell waith mae defnyn o haul yn fflachio ar y goron, ac yn fy atgoffa o'r diwrnod hynod hwnnw.



*Llun: Yr Eisteddfod Genedlaethol*

Y mae Jim Parc Nest wedi ysgrifennu englyn a cherdd mewn ymateb i gerddi'r goron. Diolchwn iddo am y fraint o gael eu cyhoeddi yma.

**Coron Is-y-Coed 2025**

Yng nghalon coron Is-y-Coed mae mam
ymysg rhyw drwch drysgoed,
a'i mab, â'i serch o'i faboed,
laned, gryfed ag erioed.

*Jim Parc Nest*

**Y Coroni, 2025**

Ers tipyn, erbyn hyn,
fe'm caf fy hunan yn annwn,
hen hafan a fu'n nef unwaith
i hil heb gof ar Ynys Gwales;
ei nefoedd oedd yn ddiddan.
Ond, nid anialdir heb fendith
mo annwn i minnau; mae yno,
yn sgil yr angof, angen am ofal;
a'i rin a geir yn wenau o gariad
a fyn ein noddi yn feunyddiol.

Ond wedyn, diwrnod nodedig
â'i ddigwyddiad bythgofiadwy
o braf a eura ein byw arferol.
Heddiw, mam a rydd ei mab,
ei haer annwyl, i ŵyl ei goroni,
a'i rara avis i'w brofi'n brifardd.
Ei wewyr am ei fam fu ei awen,
gan wneud ei gân hynod o gynnil
yn ddyhead y caiff hi'r profiad prin
o gael gafael ar undydd i'w gofio
yn ei pharadwys anghyffredin.

*Jim Parc Nest*

# Colofn Natur

## *Gŵyl Rhwng y Coed*



**Gethin Jenkins-Jones**

Wrth drafod pa wyliau cerddoriaeth ym Mhrydain yw'r gorau, bydd sgyrsiau yn aml yn troi at y mawrion fel Glastonbury, Reading a Leeds (ac o bosib i'r Cymry ifanc - Maes B). Dw i eto i fynychu'r rhai mwyaf adnabyddus fy hun fel y gallaf gynnig fy marn ar y drafodaeth, ond un peth a wn yn sicr yw ein bod yn lwcus iawn yn ne Cymru i fod o fewn tafliad carreg i ŵyl hyfryd iawn - Rhwng y Coed. Ers 2018, cynhelir yr ŵyl fach yma mewn coedwig ym Merthyr Mawr yn ystod penwythnos gŵyl y banc ym mis Awst, ac mae dychwelyd yno wedi troi'n draddodiad i mi a fy ffrindiau dros y blynyddoedd diwethaf. I lawer o bobl, mae penwythnos Rhwng y Coed yn arbennig iawn, ac er taw'r gŵyliau eraill sydd efo'r cantorion a'r bandiau enwocaf, dw i'n methu dychmygu cael gwell hwyl yn unrhyw le arall.



Y tro cyntaf yr es yno, nid oeddwn ag unrhyw syniad beth i ddisgwyl. Yn hytrach na chael fy mherswadio gan ffrind neu aelod o'r teulu, prynais docyn wedi i mi ddarganfod y digwyddiad ar-lein. Yn wir, wrth siarad efo fy ffrindiau synnais nad oedd yr un ohonynt wedi clywed am yr ŵyl o gwbl. Rhywsut, llwyddais berswadio fy nghariad, fy chwaer, a chwpl o ffrindiau i ymuno â mi, ac roedd pob un ohonom yn gyffrous i weld pa fath o benwythnos oedd o'n blaenau.



Gŵyl cerddoriaeth gwerin yw Rhwng y Coed, ond mae hyn yn derm arwynebol i'w ddisgrifio, gan fod gymaint o bethau eraill yno i'w mwynhau. Anghofiaf i fyth ddarllen y rhaglen am y tro cyntaf a gweld yr amryw o bethau hyfryd a drefnwyd. Twmpath nosol, gweithgareddau celf a chrefft, sesiynau trafod materion amgylcheddol, pebyll tylino ac yoga, a mwy. Ar sawl achlysur roedd yn anodd dewis pa sesiynau i'w blaenoriaethu, ac mae'r fath betruso wedi bod yn broblem (weddol braf) i ni bob blwyddyn ers hynny.

Peth arall a wnaeth fy synnu y flwyddyn gyntaf oedd pa mor deuluol oedd yr ŵyl, efo demograffig weddol hafal ar hyd y cenedlaethau. Mae ardal gyfan o'r maes wedi'i ddynodi ar gyfer gweithgareddau plant, ac mae'n braf gweld grwpiau ohonynt yn chwarae'n hapus yn yr heulwen. Beth bynnag eich cefndir, mae Rhwng y Coed yn gynhwysol iawn, ac mae'n haeddu cymeradwyaeth am hynny. Dros y blynyddoedd (eleni yn enwedig) dw i wedi sylwi bod mwy o ddwyieithrwydd yno a gwell hygyrchedd i bobl anabl, a chanlyniad yr ymdrechion hyn yw bod yna deimlad cryf o gymuned i'r ŵyl. I mi mae'r coed eu hun yn atgyfnerthu hyn, oherwydd ymysg coedwigoedd tebyg wnaeth cymunedau cyntaf Cymru fyw oesau maith yn ôl. Mae deffro mewn pabell o dan ganopi y coed, efo caneuon adar yn ein clyw, yn gwneud i chi feddwl am oesoedd tawelach, arafach ein gorffennol, gan beri teimlad o les a hefyd hiraeth.

Fe wnaeth yr ŵyl y flwyddyn gyntaf gryfhau'n perthynas fel grŵp o ffrindiau, ac i mi dyna'r peth gorau oll am y penwythnos. Ers hynny rydym wedi trefnu sawl parti efo themâu o baganiaeth, natur a cherddoriaeth, sydd wedi'n gwneud ni'n ffrindiau gwell fyth, ac rydym yn sicrhau ein bod yn prynu tocynnau i'r ŵyl yn gynnar iawn am y flwyddyn ganlynol. Sut oedd hi eleni? Wel, i mi a phawb arall o'r grŵp, cytunwn taw hon oedd y flwyddyn orau hyd yma. Tywydd perffaith, dawnsio, sesiynau trafod diddorol, a chwrdd â hen ffrindiau - fe wnaeth eleni dicio'r blychau i gyd. Roedd y canu hefyd yn ffantastig, efo digonedd o dalent ifanc Cymraeg ar y llwyfan fel Eve Goodman, Mari Mathias a Cerys Hafana. Am y tro cyntaf, eleni trefnwyd sesiynau dysgu Cymraeg, a dewisais yn ddigymell i ymuno ag un o'r sesiynau hwnnw i helpu. Roedd yn lot o hwyl, a dwi'n gobeithio y bydd hwn yn eitem flynyddol o hyn ymlaen.

Beth bynnag eich oedran, os ydych yn debygol o fod yn rhydd yn ystod gŵyl y banc mis Awst nesaf, dw i'n argymell i chi brynu tocyn i Rhwng y Coed. Cerddoriaeth, cymuned a natur yw rhai o bethau mwyaf hyfryd bywoliaeth, ac mae'r ŵyl yn gyfoethog ohonynt. A llawer mwy!

# Haf 2025

Dathlu'r pum canfed rhifyn. Tipyn o gamp. A diolch am y gwahoddiad i sgrifennu rhywbeth ar gyfer rhifyn y dathlu. Dewisais sôn am haf 2025.

Beth oedd yr haf i mi? Ydw, dw i'n mynd i ychwanegu brawddeg ola pennill cynta' cerdd T.H. ac Amy Parry-Williams - "nid yw hirddydd haf yn ddim i mi, dim ond hirlwm er pan gollais di" (wyth mlynedd yn ôl). Mae'n ŵyl y banc - yr un ola cyn Nadolig! Rhyw hen deimlad diflas fel 'na sy'n dod drosof ar ddyddiau fel hyn ond dim ond beirdd sy'n cael mynegi'r hunandosturi! Rhywbeth i deuluoedd yw adeg gwyliau. Cyfle i ymlacio a mwynhau cwmni ei gilydd. Gweld eisiau hynny dw i mae'n debyg.

Does dim lle gen' i gwyno mewn gwirionedd am i minne gael mwy nag un achos i'w ddathlu yn ddiweddar.

Ar ddechrau'r haf fe ddaeth y cyfnod o bum mlynedd o gadw llygad ar ôl llawdriniaeth i gael gwared ar y melanoma i ben yn llwyddiannus. Ar yr un pryd cefais glun newydd. Yn groes i'm holl egwyddorion 'roedd rhaid defnyddio'r gwasanaeth preifat a chyda help ariannol fy annwyl fab a sgil arbennig y llawfeddyg Mr Phillip Thomas, diflannodd y boen. Mae hi wir yn sgandal bod pobl yn gorfod aros am ddwy flynedd a mwy cyn i'r gwasanaeth iechyd waredu'r boen sy'n effeithio mor ddrwg ar fywyd bob dydd unigolyn. Fuse'r gwleidyddion sy'n llunio polisiau yn fodlon aros cyhyd â hynny?

Ond, mae mwyafrif y rhai sy'n gorfod aros yn hen ac mae rhai'n marw cyn cael clun newydd ac mae hynny'n gneud i'r ffigyrau edrych yn well. Waw! Stopa fanna, achos ti'n mynd nawr ar ôl sgwarnog arall - oedraniaeth - sy'n fyw ac yn iach!

I fi, diolch byth, roedd e'n achos o ddathlu, ac 'roeddwn i'n ddigon sionc a di-boen ymhen deufis i fynychu dathliad arall sef cael fy urddo'n gymrawd Prifysgol Caerdydd, fy alma mater. Dw i ddim yn or-hoff o seremonïau ond roedd hon yn wahanol gan fod y dramodydd a'r awdur Daf James yn cael ei urddo ar yr un pryd. Roedd hi'n fraint ac yn bleser rhannu llwyfan ag e'.

Yr unig beth oedd yn fy mhoeni oedd gorfod annerch y myfyrwyr oedd yn graddio y diwrnod hwnnw. Beth yn y byd y gallwn i ei gynnig fyddai'n berthnasol iddyn nhw. Wedi'r cwbl roedd hi'n drigain a phump o flynyddoedd ers i mi droedio'r un llwyfan i dderbyn fy ngradd. Yn lwcus i fi, yr wythnos gynt roeddwn wedi cael cwmni fy ŵyr sy'n ei ugeiniau cynnar ac fe fuom yn trafod y "speech"!

Beth bynnag fe ddois i ben a chael gwrandawiad a chymeradwyaeth arbennig. A hynny am fy mod wedi dweud wrthynt fy mod yn disgwyl iddyn nhw, yn wahanol i'r cenhedlaethau o'u blaenau, sefyll lan yn erbyn rhyfela a'r gweithredoedd erchyll oedd yn lladd miloedd ar filoedd o blant. Ac yn hytrach na gwario triliynau ar gynhyrchu arfau, bod ffydd gen i y byddan nhw'n defnyddio'r arian i wella bywydau pob unigolyn ar y blaned hon. Petawn i'n un sy'n gweddïo bu'swn yn ymbil am i hynny fod yn wir!

Cyrhaeddodd yr Eisteddfod. Am y tro cynta' ers 1981 'doeddwn i ddim yno. Alla i ddim dweud mod i'n



colli'r paratoi at 'steddfod a'r pacio ar gyfer gwanwyn, haf, hydref a gaeaf! Ond, jiw, rhaid cyfadde mod i'n colli'r bwrlwm ac ail-wefru'r batris. Doedd dim amdani ond gwylio a gwrando. Uchafbwyntiau i mi oedd y corau a'r seremonïau llenyddol. Safonau uchel mae'n amlwg. Ond doedd dim byd i'w gymharu â'r prynhawn Gwener pan gadeiriwyd Y Gylfinir. Cefais i fel y miloedd fy nghyffwrdd i'r byw. Do, a'r dagrau hefyd. Wedi darllen yr awdl droeon, y gair fu'swn i'n ei ddefnyddio yw dyrchafol. Ac i mi, oherwydd fy mod yn fy wythdegau (hwyr), wrth ei darllen, 'dw inne, fel ei hawdur, yn teimlo rhyw dangnefedd. Diolch Tudur Hallam.

Wedyn, y digwyddiad arall wnaeth i mi deimlo mor falch fy mod yn Gymraes oedd cyngerdd Côr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru. Côr unigryw a mor Gymreig - does gan wledydd eraill y D.G. ddim byd tebyg. A sôn am safon! A'r ffaith bod yr arweinydd Tim Rhys-Evans mewn byr o dro wedi cael y lleisiau yma i gydseinio mor berffaith.

Gyda llaw roedd cyngerdd y Côr yn Sain Ffagan yn rhad ac am ddim. Faint daloch chi i fynd i weld Oasis yn y Stadiwm? Fu'swn i ddim wedi talu ceiniog - ond roedd fy ŵyr yno yn un o'r tîm sy'n gwneud rhaglen ddogfen ar aduniad y brodyr Gallagher. Roedd e' hefyd yn gweithio ar gyngerdd Stevie Wonder. Ac roedd un o ganeuon Stevie Wonder yn cael ei chanu gan y Côr Ieuenctid. Fel roedd gweithiau gan Mozart, a Gareth Glynne. Cerddoriaeth yn gymysg oll i gyd. Mor iach.

Mae angen i'r bobl ifanc yma gael llwyfan ehangach i ddangos doniau gorau'n gwlad i'r byd a'r betws. Taith fel mae Oasis arni ar hyn o bryd? Pam lai? Petai'r bobl ifanc yma yn cael eu clywed yn ehangach dw i'n siwr y gallent lenwi stadiymau ar draws y byd!

Roedd un oedd yn y cyngerdd yn Sain Ffagan yn gofyn faint o'r pleidiau gwleidyddol fydd yn ymladd am seddi yn y Senedd flwyddyn nesa, fyddai'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi rhywbeth mor Gymreig â Chôr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru. Byddai'r ateb yn ddiddorol.

Gyda llaw, 'sgwn i pa blaid a faint yng Ngwalia wen fydd yn dathlu yn haf 2026!

*Beti George*

# Colofn Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

*Colofn sy'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr y Brifysgol ysgrifennu am y pethau sy'n eu diddori nhw ar hyn o bryd. Yn erthygl mis Medi, cawn hanes Siôn Evans a'r criw o Ysgol y Gymraeg fu draw ym Mhatagonia dros yr haf.*

Shwmae! Siôn ydw i! Rwy'n wreiddiol o Ddyffryn Aeron, ac ar fin dechrau fy mlwyddyn olaf yn astudio'r Gymraeg a Newyddiaduriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'n haf i eleni wedi bod yn dipyn gwahanol i'r arfer, gan i mi dreulio mis Awst ben draw'r byd yn nhalaith Chubut ym Mhatagonia! Pam mynd i Batagonia felly? Wel, bues i'n hynod o lwcus o dderbyn ysgoloriaeth gan Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, er mwyn treulio mis yma ar brofiad gwaith gyda rhai o'm cyd-fyfyrwyr yn yr Ysgol yn cefnogi gwaith Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut.

Ar ôl taith hir, cyrhaeddom ddechrau Awst ac yn syth â ni i Ddyffryn Camwy am bythefnos, lle buom yn gwirfoddoli yn Ysgol Gymraeg y Gaiman, Ysgol yr Hendre yn Nhrelew ac yng Ngholeg Camwy. Roedd ein gwaith yno yn cynnwys chwarae gemau gyda'r plant, arwain gweithgareddau amrywiol a chefnogi'r athrawon a thiwtoriaid Cymraeg. Roedd yr ysgolion yn brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod y Bobl Ifanc ym mis Medi, a braf oedd cael cyfrannu at y paratoadau. Yn ogystal ag ymweld â'r ysgolion, mynychom wersi Cymraeg i oedolion a sesiynau sgwrsio yn Nhrelew, Rawson, Dolavon a Phorth Madryn.

Gwnaethom weithgareddau gwahanol yn y Dyffryn megis gwylio Cefn Gwlad Patagonia gyda thrigolion yr ardal, gwylio un o gemau Clwb Rygbi'r Ddraig Goch yn y Gaiman, a mynd ar daith i Puerto Pirámides i weld y morfilod. Roeddent yn anferth ac yn hynod o agos i'r cwch! Am brofiad bythgofiadwy!

Yna, bws dros nos, dros y paith i gyrraedd hyfrydwch yr Andes a Threvelin, ein cartref am y pythefnos canlynol. Yno, buom yn Ysgol y Cwm, Trevelin - ysgol gynradd ddwyieithog sy'n ehangu gyda dosbarthiadau uwchradd newydd. Fel yn y Dyffryn, buom yn cefnogi'r athrawon ac yn cynnal gweithgareddau gyda'r plant. Hefyd, mynychom sesiynau sgwrsio yng Nghanolfan Gymraeg yr Andes yn Esquel.



Yn ein hamser rhydd cawsom gyfle i ddringo un o fynyddoedd yr Andes ac ymweld â rhaeadrau prydferth Nant y Fall.

Dyna'r daith hyd yn hyn! Gyda llai nag wythnos ar ôl yn Nhrevelin, byddwn yn teithio ymlaen i Buenos Aires i dreulio ychydig ddiwrnodau yn y brifddinas, cyn galw yn Efrog Newydd ar y ffordd adre. Ac yna, wrth gwrs, bydd hi'n bryd dychwelyd i'r Brifysgol ar gyfer y drydedd flwyddyn!

Mae ymweld â Phatagonia wedi bod yn brofiad arbennig iawn, gan roi'r cyfle imi gyfarfod â phobl ysbrydoledig, a phrofi'r iaith Gymraeg a'n diwylliant yn cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi ben draw'r byd!

---

## Robin Bateman yn 80



Yn ystod yr haf dathlodd Robin Bateman ben-blwydd arbennig iawn. Y mae'n un o groeseirwyr brwd *Y Dinesydd* ac wedi ennill sawl gwaith.

Diolch yn fawr i un o'i gyfeillion, John Lloyd, am yr englyn hyfryd hwn i'w gyfarch.

Hirben iawn yw'n Robin ni – â rhesi
ei groesair 'di llenwi;
yn wyth deg mae d'afiaith di
yn hŷn ond dal yn heini.

*John Lloyd*

# Pobol y Rhigwm

**Englyn** neu **driban**: **Cywain**

Mae'r beirniad yn dwlu ar yr adeg hon o'r flwyddyn, o gyffro tymor newydd o ddigwyddiadau, i artistwaith byd natur. Roedd Gwasanaeth Diolchgarwch ei febyd wastad yn rhagflaenydd nodedig i'r hydref, felly nid ar hap y gosodwyd pwnc sy'n gyfystyr â'r cynhaeaf. Ches i ddim fy siomi. Cynhaeaf toreithiog gafodd y golofn hon eleni – yn wir, dyma un o'r cystadlaethau gorau ers i fi gymryd yr awenau, gyda'r safon ar y brig yn uchel tu hwnt. O blith y deg cynnig a gafwyd, doedd 'na'r un ymgais wan. Baich beirniad, wrth gwrs, yw ceisio didoli casgliad mor gryf! Un sylw cadarnhaol, cyn bwrw ati, mae'r gynghanedd yn gywir ac yn llifo'n esmwyth ym mhob un o'r englynion, sy'n codi calon yn syth!

Yn ôl fy arfer, cyn manylu ar hanner ucha'r tabl, dyma frawddeg yr un am y pum cynnig arall, heb fod yn ôl trefn teilyngdod. Gall awduron pob un deimlo'n falch o'u cynigion, achos mewn mis gwannach fe fydden nhw'n saff o godi i dir uwch.

Englyn ysgafn sydd gan *Dinesig*, ond mae'n bell o fod yn englyn ffwr-â-hi – mae'r llinell agoriadol, "Llond bws o datws ar daith i'r eglwys" yn ennyn gwên, a'r datganiad uniongyrchol yn yr esgyll yn grafog. Lluniodd *Medi 2025* epigram o englyn am gyfalafiaeth drachwantus, "ond twf ddoe yw'r twf a ddaeth / o'i fedi yn ddifodiaeth", meddai'r esgyll grymus. Trosiad ar ei hyd yw triban crefftus *Brithdir*, yn delweddu – yn ôl dehongliad y beirniad – y sefyllfa sy ohoni yn llain Gaza, lle mai "estron yw'r dywysen deg / Ym mröydd rheg a dolur", dewis effeithiol o eiriau. Yn rhyfedd ddigon, mae triban *Rhyfelwr* wedi mynd i'r un trywydd (hyd y gwela i), sef trosi cywain y cynhaeaf â 'phladuro'r werin', gyda llinell o gynghanedd draws drawiadol yn cloi, "yn ystrad i'w ddinistrio", triban arall cryf ei fynegiant a'i fydryddiaeth. Er nad yw *Mwyara* wedi bodloni holl ofynion y triban (yn benodol, diffyg odl gyrch), mae yma ymgais ganmoladwy sy'n ddelwedd fyw a chysurus o dymor creu "tarten o safon".

Nid diystyru'r pum ymgais uchod wna'r beirniad o gwbwl. I'r gwrthwyneb, mae yma ddoniau diamheuol ac ymroddiad i grefft. Mae hynny, yn ei dro, yn tystio i'r safon aruchel ar gopa'r gystadleuaeth y tro hwn. Dyma air am y ddau a ddaeth yn agos i'r podiwm:

> Putin a'i fyddin o feddau'n torri
> Drwy'r tir a'n calonnau –
> A'n bro m'ond yn wenith brau
> O'i bwrw i'w 'sguboriau.
>
> *AL-ASKA*

Dyma englyn solet, gyda chwip o baladr. Mae'r gynghanedd sain ar y dechrau'n ysgytwol o ffres, a'r ymadrodd "torri / drwy'r tir a'n calonnau" yn neilltuol. Gwaetha'r modd, dyw mynegiant yr esgyll ddim cweit cystal â'r paladr, ond fe osododd *AL-ASKA* y bar yn uchel iawn iddo'i hun!

> Er yr hwyl a fu drwy'r haf – y cywain
> cyn cawell y gaeaf,
> wedi'r tymor rhagoraf
> llawn cwmni, pa gwmni gaf?
>
> *Cwmnïwr*

Mae 'na dristwch cyffyrddadwy yn rhedeg drwy englyn *Cwmnïwr*, sy'n drosiad am golli cyfeillion a cheraint wrth heneiddio, "wedi'r tymor rhagoraf". Er nad yw'r llinell agoriadol yn llwyddo i ategu gweddill yr englyn cryf hwn, mae'r dechneg o ailadrodd er mwyn creu cynghanedd sain yn y llinell glo yn apelio'n rhyfeddol at y teimladau. Daeth yn agos iawn at fod gyda'r tri gorau:

> Estyn llaw, torchi llawes – yw digon
> Cymdogaeth dirodres,
> A dyrnu sy'n gyd ernes
> Dynna ni'n gymuned nes.
>
> *Ffermwr ffowc*

Yr unig wendid yng nghynnig *Ffermwr ffowc* oedd y rhagymadroddi diangen! Mae'r englyn gorffenedig hwn yn siarad yn glir dros ei hun, heb eisiau esbonio mlaen llaw sut yr arferai amaethwyr ddod at ei gilydd i helpu â'r cynhaeaf. Mae'r detholiad coeth, meddylgar o eiriau yn yr englyn yn delweddu i'r dim adeg amgenach pan fydde ni'n cyd-dynnu fel cymdeithas – ac yn gryfach cymdeithas oherwydd hynny – yn hytrach nag ymddiethrio. Mae'r esgyll ymhlith y mwyaf caboledig i fi ddarllen. Y rhan fwyaf o fisoedd, mae'n siŵr y byddai *Ffermwr ffowc* wedi ennill yn rhwydd, achos englynwr o safon yr Eisteddfod Genedlaethol sy' yma.

> Yn Jwda, amser medi,
> a Boas yn ymbesgi,
> yng nghysgod moel crymanau glwth,
> bu farw Ruth o dlodi.
>
> *Lefiticus 23:22*

Dyma driban rhyfeddol. Gymerwn ni'r ffugenw yn gynta. Y gorchymyn yn Lefiticus 23:22 yw "pan fyddi'n medi cynhaeaf dy dir, paid â medi at ymylon dy faes, a phaid â lloffa dy gynhaeaf; gad hwy i'r tlawd a'r estron." Mae'r triban, wedyn, yn troi ar ei ben yr hyn a gawn yn Llyfr Ruth, sef Boas yn gwaredu Ruth a Naomi rhag amddifadrwydd, yn unol â chyfraith Moses. I fi, mae "Boas yn ymbesgi" a Ruth yn marw o dlodi yn fetafforau am y modd y mae cynhaliaeth yn cael ei gadw rhag dioddefwyr yng nghyffunie Israel a'r Llain Orllewinol heddiw, o'i gymharu ag arferion oes y Beibl. Hyn i gyd mewn naw sill ar hugain sy'n llifo'n ddiymdrech. Rhyfeddol.

> Mae ias yng ngwlith y meysydd – ac yno
> clywaf gân o'r mynydd,
> o eigion y mawnogydd,
> awr o haf, daw'r gerdd yn rhydd.
>
> *Y gylfinir*

Ar yr olwg gynta, mae yma englyn deheuig (er, efallai chydig yn annhestunol) am rywun yn profi haf bach Mihangel ar droad y tymor. Wedyn, mae rhywun yn gweld y ffugenw, ac yn cael ei lorio. "Y gylfinir", wrth gwrs, oedd ffugenw'r Prifardd Tudur Hallam ar gyfer ei awdl fuddugol, ddewr, syfrdanol yn Steddfod Wrecsam leni. Ar amrantiad, dyma roi gwedd hollol wahanol i englyn y *gylfinir* hwn. Teyrnged deimladwy o gynnil sydd yma, gyda gwrthrych yr englyn, yng nghanol "mawnogydd" ei gyflwr yn dod o hyd i'w lais, ac ar "awr o haf" yn cael nerth i gywain ei awdl a rhannu ei brofiad. Mae hynny, wrth gwrs, yn adleisio'r hyn sydd yn yr awdl ei hun ("Ym Mhen Rhos mae heno'r haf / yn ei ôl"). Mae ôl myfyrio yma, gan englynwr rhugl a deallus. Does dim amheuaeth gyda fi ei fod ar y brig, mewn cystadleuaeth o'r safon uchaf.

**Cystadleuaeth Medi**

**Pennill pedair llinell, ar fydr ac odl:**

**Awr ychwanegol**

*Aron Pritchard*

**Enillydd Gorffennaf / Awst**

**Dilwyn Jones, Caerdydd**

*Anfonwch eich cynigion erbyn 25 Medi at: eirianagwilym@gmail.com Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Difyrion Digidol

## AI - Deallusrwydd Artiffisial

Rhaid cyfaddef, mi ydw i am dwyllo braidd fis yma. Mi wnes i ofyn i un o blatfformau Deallusrwydd Artiffisial neu AI, *Micrsoft Copilot* (https://m365.cloud.microsoft/) ysgrifennu erthygl 300 gair am fudd AI neu Ddeallusrwydd Artiffisial i'r Gymraeg. Dyma beth ddaeth i'r fei:

"Mae'r Gymraeg wedi goroesi canrifoedd o newid - ac yn oes ddigidol heddiw, mae cyfleoedd newydd yn dod i'r golwg i'w helpu i ffynnu. Mae Deallusrwydd Artiffisial, yn fwy na dim ond ffasiwn dechnolegol, bellach yn arf pwerus mewn adfywio ieithoedd - ac mae ei effaith ar y Gymraeg yn un addawol ac ysbrydoledig."

Yn amlwg, mae'r cyfrwng am ganmol ei hun ond dwi'n llwyr gytuno efo'r pwynt fod angen i'r Gymraeg gofleidio DA wrth iddi esblygu unwaith yn rhagor yn union fel y gwnaeth wrth gyfieithu'r Beibl, ysgolion cylchynol Griffith Jones Llanddowror, S4C, cerddoriaeth bop ayyb at gryfhau statws y Gymraeg.

Mae Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor (https://www.bangor.ac.uk/canolfan-bedwyr) yn arloesi yn y maes cyfieithu ac fe fydd DA yn cymryd camau breision yn y maes hwn dros y blynyddoedd sydd i ddod, fel y mae DA yn egluro:

"Un o gyfraniadau mwyaf amlwg DA yw yn y maes cyfieithu. Gall modelau iaith uwch ddarparu cyfieithiadau cyflym ac union rhwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill, gan gynorthwyo dysgwyr, busnesau a sefydliadau i weithredu'n ddwyieithog yn hyderus. Trwy ddileu rhwystrau ieithyddol, mae DA yn annog defnydd dyddiol o'r Gymraeg mewn pob math o leoliadau."

Mi ydw i'n rhannu'r cyffro y bydd DA yn chwyldroadol i'r Gymraeg ym maes lleferedd a dysgu fel y mae Copilot yn egluro yma, "Mae gan DA hefyd botensial mawr mewn cydnabod lleferydd a synthesis. Mae offer sy'n trosi Cymraeg llafar yn destun (ac i'r gwrthwyneb) yn agor drysau at gyfryngau hygyrch, cynorthwywyr llais, a gwasanaethau cynhwysol - yn enwedig ar gyfer siaradwyr ag anableddau neu lythrennedd cyfyngedig. Gall llwyfannau addysgol sy'n defnyddio DA deilwra'r dysgu, gan gynnig adborth ynghylch ynganiad a chynnwys sy'n addas i bob dysgwr."

Ym maes hanes, treftadaeth a diwylliant, mae Copilot yn credu y bydd DA yn hwb mawr, "Yn hanfodol, mae DA yn helpu i gadw a dathlu hunaniaeth ddiwylliannol. Trwy hyfforddi modelau ar destunau Cymraeg, caneuon a hanesion llafar, gall cymunedau ddigideiddio a diogelu'r dreftadaeth ieithyddol i genedlaethau'r dyfodol. Gall hyd yn oed gyd-ysgrifennu barddoniaeth neu gyfansoddi cerddoriaeth yn y Gymraeg - gan uno traddodiad ac arloesi."

Ac mae Copilot yn cloi'r darn trwy atgoffa fod angen buddsoddi, sy'n berfffaith wir, "Wrth gwrs, mae'r manteision hyn yn ddibynnol ar fuddsoddi a chynllunio moesegol. Rhaid cynnwys siaradwyr Cymraeg wrth ddatblygu'r dechnoleg hon i sicrhau dilysrwydd a sensitifrwydd diwylliannol."

"Gall DA fod yn gyfaill digidol i'r Gymraeg - a'i chynnal a'i meithrin yn yr 21ain ganrif a thu hwnt." Ac mae yn llygaid ei le, a dylem archwilio ei botensial. A gwell fydd o'n mynd!

Yn amgylcheddol, mae DA yn broblematig iawn, gyda'r gwres y mae canolfannau data yn ei gynhyrchu wrth ganfod y corff o wybodaeth bob eiliad a phob munud dros y byd yn anferth. Ond gallwn fel diwylliant lleiafrifol yn sicr ei ddefnyddio o'n plaid ym maes hygyrchedd, lleferedd ayyb. Ewch i drio DA! Mae yna fyd newydd yn eich disgwyl!

*Deian ap Rhisiart*

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***
**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**
**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Yr Alltudion



Llongyfarchiadau i Barti Llefaru 'Yr Alltudion' o Gaerdydd a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth Parti Llefaru Agored yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni. Roedd yn dipyn o gamp mewn cystadleuaeth o 11 o bartïon, gyda grwpiau profiadol iawn fel Criw Pen Llŷn, a ddaeth yn gyntaf, a Pharti Man a Man, a ddaeth yn ail.

Mae'r parti'n cynnwys aelodau o wahanol rannau o Gaerdydd sydd wedi bod gyda'i gilydd ers ffurfio'r cnewyllyn cyntaf ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn yn 2017. Maent wedi cystadlu yn y Genedlaethol ers hynny, ac yn cefnogi eisteddfodau lleol, gan gael cryn hwyl arni.

Hoffai'r aelodau ddiolch yn fawr i Hannah Llŷn am eu hyffroddi.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno, cysylltwch â Glenys Llewelyn drwy glenys.llewelyn@sky.com

---




## Tiwtor Mathemateg

**Llongyfarchiadau llon a llawen i'm myfyrwyr ar ganlyniadau haeddiannol eto eleni.**

**Cefnogwch eich plentyn i gyrraedd ei botensial (photensial) mewn pwnc allweddol pwysig yn ei yrfa (gyrfa).**

**Hyfforddiant CA3, TGAU (Rhifedd a Mathemateg), UG a Safon Uwch ar Zoom neu yn fy nghartref yn Penylan. Tiwtor profiadol iawn a llwyddiannus.**

**Manylion pellach 07 968 463 737 neu serenagwill@btinternet.com**

# Bwrw'r 500 yn rhifyn mis Medi

Fel y soniwyd yn rhifyn 499, er taw'r *Dinesydd* yw papur bro hynaf Cymru yn y cyfnod diweddar, nid ni yw'r cyntaf i ddathlu'r 500.

Manteisiais ar wahoddiad i gynrychioli'r *Dinesydd* ar y dydd Iau yn Eisteddfod Wrecsam ym mhabell y mentrau iaith a phapurau bro.

Y tro hwn gosodwyd ni mewn 'stryd dawel' er ddim mor bell â hynny i ffwrdd o'r brif fynedfa. Felly manteisiais ar gyfle i gael golwg ar nifer eraill o'n papurau bro – Eco'r Wyddfa, rhif 537, Llanw Llŷn, rhif 542 a'r Odyn a phapur bro Nant Conwy, rhif 551.

Mae'n gwestiwn diddorol pam rydym ar ei hôl hi braidd yn bwrw'r 500. Mae wedi cymryd 52 blynedd a hanner i ni gyrraedd y garreg filltir arbennig hon.

Os oes diddordeb gan rai ohonoch yn y materion hyn, yna bydd cymwynas Penri Williams, rhai blynyddoedd yn ôl, o gymorth mawr yn y maes hwn.

Cofier bod modd mynd i wefan *Y Dinesydd* sef dinesydd.cymru ac mae'r hen rifynnau yno ers y dechrau ym mis Ebrill 1973. Wel, hynny yw, heb law am rifyn 9, Mawrth 1974.

Yn anffodus rydym o hyd angen copi caled fel bydd Penri yn medru ei osod gyda'r gweddill. Ceisiwch gofio am hwn pan fyddwch yn gwaredu hen bapurau, llyfrau ac ati!

Mae'n amlwg bod cyhoeddi'r *Dinesydd* yn gyson a rheolaidd yn brofiad heriol yn ystod rhai o'r blynyddoedd cynnar – dim ond 6 rhifyn a gyhoeddwyd yn 1994 a 6 hefyd yn 2000.

Efallai na ddylwn gyhoeddi yma ond sylwaf taw rhifyn 252 oedd Chwefror 2000, yna 255 oedd mis Mawrth. Ymddengys na chyhoeddwyd rhifynnau 253 na 254 ar ddechrau'r ganrif newydd!

A beth am y copïau caled ers 1973? Mae gwerth hanesyddol yma i gynorthwyo haneswyr papurau bro y dyfodol – efallai bydd rhywun yn bwrw golwg arnynt yn 2073!

Cofier bod casgliad o'r *Dinesydd*, copïau caled, yn Llyfrgell Cathays. Cofiaf roi trefn ac ychwanegu copïau yno yn 2023 rhai misoedd cyn dathlu'r hanner cant, 1973-2023. Bydd rhaid mynd nôl yno fel bydd copïau caled 2023-25 ar gael i bawb.

Os oes diddordeb gan rai ohonoch yn natblygiadau'r *Dinesydd* ar hyd y degawdau yna ewch mewn i'r wefan a sylwi ar gynnwys a diwyg rhifyn 100 yn mis Hydref 1983, 200 Chwefror 1994, 300 Gorffennaf 2005 a 400 Medi 2015.

Felly diolch i bawb sydd wedi darllen ac anfon gair i'n papur bro ar hyd y blynyddoedd. Tybed sut basai rhai o'r arloeswyr cynnar, Merêd, Shân Emlyn, Cen Williams, Robin Jones ac eraill yn ymateb i gynnwys a diwyg ein rhifyn diweddaraf – mae e'n sicr yn llawn lliw ac i Bryan James, Llandaf, yn ystod ei gyfnod fel cadeirydd y mae'r diolch am hynny!

Os ydych yn newydd i Gaerdydd a'r cylch – wedi'r cyfan mae nifer yn ymddeol i'r ardal hon heb sôn am symud i weithio. Er gwybodaeth cyhoeddwyd dau rifyn arbennig o'r *Dinesydd* ac mae 40 tudalen ynddynt: rhifyn 429 Awst 2018 pan ddaeth yr Eisteddfod Genedlaethol i Gaerdydd, hefyd rhifyn 477 yn 2023 pan ddathlwyd yr hanner cant.

Mwynhewch felly yr arlwy amrywiol diweddaraf, rydym yma o hyd a hir oes i'r *Dinesydd*!

*Gwilym Dafydd*




*Llun o'r 3 papur bro a enwyd sydd eisoes wedi cyhoeddi rhifyn 500*

---

## Bwyd i'r corff a'r meddwl yn siop Iechyd Da

Ymddengys bod Y Felin neu Siop y Felin, Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, wedi cau ar ddechrau mis Awst. Nid yw cau siop ysywaeth yn ddigwyddiad anarferol y dyddiau hyn. Mae'n ddiwedd cyfnod oherwydd gwerthwyd niferoedd helaeth o'r *Dinesydd* yno ar hyd y blynyddoedd.

Ond newyddion da i bentrefwyr yr Eglwys Newydd. Mae Alwen siop Iechyd Da gerllaw wedi cytuno i werthu copïau caled o'r *Dinesydd*. Byddant **o dan y cownter** felly holwch amdanynt. Ein diolch i Alwen am ei chymwynas. Cofiwch brynu eich cyflenwad o fwydydd iach tra byddwch yno fel mae nifer ohonoch eisoes yn gwneud!

Diolch hefyd i Mary, Beth a Shân Siop y Felin am eu cymorth i werthu cannoedd lawer o gopïau ers rhoi pris o 80 ceiniog ar gopïau caled nôl yn 2010.

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## *Gair o Sri Lanka ac Wrecsam*

**Gwilym Dafydd**

### Sri Lanka

Eleni aethon ni i Sri Lanka (Ceylon oedd ei henw cyn dyddiau annibyniaeth). Colombo yw'r brif ddinas. Mae'r ddinas yn lle prysur iawn, gyda llawer o tuk tuks, beiciau modur a bysiau. Mae'r bysiau wedi'u haddurno â lluniau pert. Mae'r adeiladau yn y brif ddinas yn gymysgedd o rai trefedigaethol a modern.




*Ar gopa'r Sigiriya*

O Colombo, teithion ni i Habarana. Ar ein ffordd, ymwelon ni ag Ysgol y Plant Ieuengaf, lle canodd y plant i ni. Ger Habarana mae Sigiriya - craig enfawr ac ar ei phen mae adfeilion o wareiddiad hynafol. Dringon ni'r 1,200 o risiau i'r copa. Roedd hi'n boeth iawn; mae'r graig tua 200m o uchder. Y rhan olaf yw ysgol wedi'i gosod ar ochr y graig.

Mae Sri Lanka yn enwog iawn am ei the. Ymwelon ni â phlanhigfa de yn Nuwara Eliya yn y mynyddoedd, lle roedd yr hinsawdd yn oerach. Yn Sri Lanka, mae'n nhw'n yfed te heb laeth ac nid ydyn nhw'n defnyddio "bagiau te." Gwelon ni'r holl broses o dyfu'r planhigion, eu sychu a'u blasu.

Y lle olaf aethon ni iddo oedd Galle. Yn Galle mae caer a gafodd ei hadeiladu yn y 14eg ganrif. Cafodd Galle ei daro gan y tsunami yn 2004, ond ni chafodd y gaer ei niweidio - er bod llawer o adeiladau eraill wedi'u dinistrio.



Mae pobl Sri Lanka yn garedig ac yn barod iawn i helpu, ac mae pawb yn dweud "AYUBOWAN," sy'n golygu "Croeso." Mae dau grŵp ethnig yn byw yn Sri Lanka: y Sinhalese a'r Tamils. Rhaid i'r llywydd ddod o'r grŵp Sinhalese. Yn y gorffennol, roedd llawer o broblemau rhwng y ddau grŵp, ond erbyn hyn maen nhw'n cydweithio.

*Mike Edwards*

### Eisteddfod 2025

Mae hanner cyntaf y flwyddyn wedi hedfan ac yn sydyn, roedden ni yn wythnos gyntaf mis Awst. Beth sy'n digwydd ar ddechrau mis Awst – yr Eisteddfod, wrth gwrs. Ar ôl wythnos wych ym Mhontypridd y llynedd, aethon ni lan i ardal Wrecsam i ymweld â'r Eisteddfod ddwywaith yn ystod yr wythnos. Y prif wahaniaeth rhwng yr Eisteddfod ym Mhontypridd a'r un yn Wrecsam oedd maint y Maes, un llawer mwy yn Wrecsam. Roedd y tywydd yn braf ac roedd hi'n bleser i fod ar y Maes mewn awyrgylch mor groesawgar a chyfeillgar. Dyn ni'n mynd i ganol Caerdydd yn aml i siopa a chael coffi a weithiau dyn ni ddim yn gweld unrhyw un da ni'n ei nabod. Ond ar y Maes, roedd yn bosib cymdeithasu â ffrindiau o Gaerdydd ac yn siarad gyda phobl o bob rhan o Gymru. Dyna beth sy'n arbennig am yr Eisteddfod – bod yn rhan o gymuned sy'n caru Cymru ac yn caru'r iaith Gymraeg. Os dych chi ddim wedi profi'r Eisteddfod eto ac yn gallu mynd, ewch – mae'n wych.

*Jan & Ian Cox*

# Ydych chi'n adnabod y wynebau hyn?

Dyma gyflwyno i chi Dîm CAP - Cyfieithu ar y Pryd - Caerdydd Ddwyieithog yng Nghyngor Caerdydd, sef James Eul, Non Shafto-Humphries a Bethan Thomas. Mae'r tri yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru a rhyngddyn nhw mae gan y tri gefndiroedd, diddordebau a phrofiad amrywiol hefyd - o redeg sesiynau sgwrsio i siaradwyr newydd i godi pwysau i ddawnsio gwerin!

Yn ogystal â chyfieithu i gyfarfodydd mewnol y Cyngor, cyfarfodydd i gynghorwyr etholedig a chyfarfodydd i staff a swyddogion y cyngor, mae'r tîm hefyd yn cyfieithu i gleientiaid allanol mewn awdurdodau lleol eraill ac i gyrff neu asiantaethau cyhoeddus hefyd.

Maen nhw'n gallu cyfieithu mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb ac mewn sesiynau ar-lein dros *Teams* – i un neu ddau - neu i gynhadledd gyfan o bobl dros sawl diwrnod! Ac mae offer cyfieithu ar y pryd eu hunain ganddynt hefyd felly does dim rhaid poeni'n ormodol am hynny!




Felly os ydych chi'n gweithio i gorff neu asiantaeth gyhoeddus yng Nghymru ac yn chwilio am wasanaeth cyfieithu ar y pryd penigamp, cysylltwch â: cyfieithuarypryd@caerdydd.gov.uk
simultaneoustranslation@cardiff.gov.uk

# GŴYL Y GLANIAD 2025

Clywyd Anthem Genedlaethol yr Ariannin yng Nghlwb Golff Radur ar Orffennaf 26ain – ai am y tro cyntaf? Hyn oherwydd ei bod hi'n 160 mlynedd ers i'r fintai gyntaf fynd ar y Mimosa am Y Wladfa. Cangen y De o Gymdeithas Cymru Ariannin oedd yn gyfrifol am drefnu'r dathliad eleni. Croesawyd aelodau a chyfeillion oedd wedi dod o wahanol rannau o Gymru gan Rhisiart Arwel, Cadeirydd y gangen leol. Braf iawn oedd cael cwmni Clare Vaughan ac Alun Iâl oedd drosodd o'r Wladfa. Ar y sgrîn fawr mwynhawyd casgliad o luniau a dynnwyd gan Eluned Jones yn ystod ei hamryfal ymweliadau gyda'r Wladfa.



Yn dilyn cinio blasus cafwyd hwyl wrth geisio datrys cwis Iwan Madog oedd yn seiliedig ar enwau lleoedd yn Yr Ariannin a chafwyd rhaglen ddiddorol a pherthnasol gan Delwyn Siôn.

Y gŵr gwadd oedd Gwilym Roberts, Rhiwbeina. Talwyd teyrngedau iddo ar fideo o'r Wladfa gan Siôn White a Gabriel Restucha gan ei ganmol am eu hysgogi nhw ac eraill i ddysgu'r Gymraeg. Un arall sy wedi gwneud cyfraniad mawr i'r Wladfa ac i Gymdeithas Cymru Ariannin ydy Ceris Gruffydd. Darllenodd o gyfarchion ychwanegol o'r Wladfa gan Juan Hughes, Billy a Gwladys Hughes a Luned Gonzalez. Soniodd hefyd am gyfraniad enfawr Gwilym i'r Gymraeg yng Nghymru ac am ei gymwynasgarwch i bobl y Wladfa ddaeth yma. Derbyniodd Gwilym englyn gan Myrddin ap Dafydd fel anrheg gan Gymdeithas Cymru-Ariannin.

Mae'i faner led Iwerydd – o Dre-lai
I Dre-lew: ysgogydd;
Yr angor dewr yng Nghaerdydd,
Yn was ac yn ddinesydd.

Eiry Palfrey oedd yn gyfrifol am y raffl lwyddiannus. Rhoddwyd y prif wobr gan Gwyn Jones, sef map o enwau Cymraeg Chubut a luniwyd ganddo. Aeth hwnnw i Drawsfynydd, i gartre Nans Rowlands. Mwynhaodd pawb ddarn o'r gacen ddathlu enfawr ac yna diolchodd Menna Edwards, llywydd y Gymdeithas, i staff Clwb Golff Radur am eu croeso a'u cymorth ac i bawb oedd wedi cyfrannu at lwyddiant y diwrnod. Terfynwyd gydag Anthem Genedlaethol Cymru.

Ar y bore Sul trefnwyd taith i weld rhai o adeiladau Sain Ffagan. Tystiodd pawb eu bod wedi cael ymweliad diddorol iawn ac wedi dysgu llawer.

*Dafydd Griffiths*



# Merched y Wawr
# Y Felin

**Trip diwedd tymor y gangen**



Cafwyd diweddglo gwych i'r tymor gydag ymweliad â gardd Waun Wyllt John Hughes yn ardal Creigiau ar gyffiniau Caerdydd. Mae'r ardd yn rhan o'r cynllun gerddi cenedlaethol ac un sy'n werth ymweld â hi yr adeg yma o'r flwyddyn. Cafwyd cyfle i werthfawrogi y llafur cariad sydd gan John tuag at arddio ac roedd yn braf ei gael yn ein tywys o gwmpas ar ddiwrnod chwilboeth o haf. Braf hefyd oedd cael cyfle am baned a chacen ar ddiwedd y prynhawn.



**Sioe Frenhinol Llanelwedd**

Daeth llwyddiant eleni i dîm Merched y Wawr y De-ddwyrain yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd wrth iddynt gipio yr ail wobr dros Gymru yng nghystadleuaeth Cwpan Radi Thomas. Mae Cwpan Radi Thomas yn gystadleuaeth crefft a choginio blynyddol gyda mudiad Merched y Wawr yn y Sioe Fawr ac mae'r safon wastad o'r radd flaenaf. Thema'r gystadleuaeth eleni oedd 'Taith' neu 'Llwybrau' a chyflwynwyd pum eitem o waith crefft gyda thair o aelodau'r gangen yn cyfrannu:

Creu map: Siwan Hill
Creu Bag picnic: Janet Catrin James
Coginio eitem sawrus ar gyfer y daith: Siwan Hill

Cafwyd marciau uchel gan bawb gyda'r bag picnic yn ennill yr ail wobr yn ei adran, gyda chyfanswm y marciau yn gosod y tîm yn ail yn genedlaethol. Diolch am gefnogaeth swyddogion y rhanbarth.

Er gwybodaeth bwriedir cynnal cwrs crefft undydd i aelodau Merched y Wawr y De-ddwyrain yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd o dan arweinyddiaeth Janet Catrin James, bydd mwy o wybodaeth ar gael yn fuan.

Mae Cangen y Felin yn cwrdd nesaf yn festri Capel y Methodistiaid, Heol Kelston yr Eglwys Newydd ar nos Iau 18fed Medi am 7.30yh gyda Kevin Davies yn gosod blodau, cychwyn da i dymor newydd o siaradwyr a gweithgareddau.

# Cylch Cinio
# Cymraeg Caerdydd

Bydd cyfarfodydd misol Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn ail-ddechrau ar Hydref 6ed, pan ddaw Nic Parry atom i adrodd ychydig o'i hanes. Mae'r amseru'n berffaith gan fod y siaradwr gwadd yn cyfnewid llys barn am Lys yr Eisteddfod eleni, ac yntau newydd gael ei ddyrchafu'n Llywydd y Llys. Mae'n gyfnod arwyddocaol i'n llywydd ninnau hefyd, gan mai Carys Tudor Williams fydd y wraig gyntaf i lenwi'r swydd hon yn holl hanes y Cylch Cinio a sefydlwyd yn 1951. Dymunwn yn dda i Carys wrth iddi ein tywys drwy'r tymor i ddathlu tri chwarter canrif o fodolaeth. Y bwriad yw cynnal noson arbennig i nodi'r achlysur hanesyddol hwn ym mis Mawrth 2016, a hynny dan arweiniad Keith Bush.

Y siaradwyr eraill yn ystod y tymor sydd o'n blaenau yw Sara Huws, y ddarlledwraig a'r hanesydd; Rhodri Llywelyn, y newyddiadurwr a'r cyflwynydd newyddion; Rachel Evans, y cynhyrchydd teledu; a'r Athro Emeritws Gareth Ffowc Roberts, yr awdur a'r mathemategydd. Fel sy'n arferol erbyn hyn, bydd naws gerddorol i'n dathliadau Nadolig pan ddaw Huw Foulkes a Ruth Roberts atom i'n diddanu.

Beth am ymuno â ni ar nos Lun gyntaf y mis yng Ngwesty'r New House? Byddwn yn dod at ein gilydd am 7:00 o'r gloch ar gyfer 7:30 ac yn mwynhau pryd o fwyd dau gwrs cyn eistedd yn ôl i wrando ar y gwestai. Y pris yw £33 y pen, ac mae'r swm yn cynnwys cyfraniad a rennir ar ddiwedd y tymor rhwng achosion Cymraeg teilwng yn y cylch.



Croeso i bawb ymuno â ni - does dim rhaid ymrwymo i ddod i bob achlysur, ond mae'n ofynnol rhoi gwybod mewn da bryd i Paul Morgan, yr Ysgrifennydd, os bwriedwch ddod. Anfonwch air ato, a chewch wybodaeth am y fwydlen a'r modd o dalu am noson hwyliog a chynnes. Ei gyfeiriad e-bost yw cylch.cinio@gmail.com. Medrwch gael rhagor o wybodaeth hefyd gan Ann Williams, y Cyd-ysgrifennydd, Bethan Whittall, y Trysorydd, neu Emlyn Davies, yr Is-lywydd. Ers ei sefydlu, bu'r Cylch Cinio'n denu aelodau o'r ardaloedd y tu hwnt i'r ddinas ei hun, ac mae'n gyfle gwych i gael sgwrs gyda chyfeillion amrywiol a gwneud ffrindiau newydd. Mentrwch atom - byddwn yn falch o'ch gweld!

*Emlyn Davies*

# Diwrnod Gwobrwyo CRICC Caerdydd 2025 ar Faes Diamond,Yr Eglwys Newydd

Cyffro, chwarae, sbort a sbri !
Gwlychu ein hyfforddwr ni !

Gyda`r haul yn tywynnu ar Faes Diamond unwaith eto ar y deunawfed o Fai, cynhaliwyd Diwrnod Gwobrwyo CRICC Caerdydd.

Gan fod y Clwb Rygbi yn berchen ar yr adeilad a`r tir ar Faes Diamond mae`n safle delfrydol i gynnal y fath achlysur.

Isod mae rhestr o`r aelodau enillodd yr anrhydedd "Chwaraewr y Flwyddyn" dros dymor 2024 - 25

Dan 7 Teddy Morgan
Dan 8 Jac Statton a Joscelyn Dippenaar
Dan 9 Harri Thomas
Dan 10 Harri Mansell
Dan 11 Evan Statton
Dan 12 Osian Murphy-Jones a Morgan Jenkins
Dan 13 Rhys Howard
Dan 14 Osian Jenkins
{Dan 15 Dim carfan}
Dan 16 Gethin Deane yn derbyn Cwpan CRICC, Chwaraewr y Flwyddyn Joshua Courtney
Tlws yr Hyfforddwr Math Jones


Teddy Morgan


Evan Statton


Harri Thomas


Rhys Howard


Jac Statton a Joscelyn Dippenaar


Harri Mansell


Osain Jenkins


Gethin Deane, Joshua Courtney, a Math Jones

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Heol Shirley: Man Geni'r *Dinesydd***

Prin yw'r ardaloedd yng Nghymru na fu rhywun adnabyddus yn ein bywyd diwylliannol yn byw ynddynt rywdro – nid rhai o'r rheng flaenaf bob tro, mae'n wir, ond rhywrai digon amlwg i fod yn enwau cyfarwydd y tu allan i'w milltir sgwâr. Ond ceir rhai mannau lle y mae enwau adnabyddus 'gyn amled â'r mwyar ym mis Medi'.

Dyna'r ardal rhwng Dyffrynnoedd Conwy a Chlwyd a'i llu llenorion dros y canrifoedd – Tudur Aled, William Salesbury, William Morgan, Twm o'r Nant a Gwilym Hiraethog, ac enwi ond llond dwrn o'r pwysicaf. Dyna, wedyn, yr ardal chwarelyddol yng nghyffiniau Dyffryn Nantlle, gwlad Kate Roberts ac R. Williams Parry a'i gefnder, T. H. Parry-Williams, ymhlith eraill. A dyna ardal Llanymddyfri ym mlaenau Dyffryn Tywi a'i chnwd o emynwyr yn y 18fed ganrif, gan gynnwys y 'brenin' ei hun, William Williams o Bantycelyn.

Ceir ambell stryd, hyd yn oed, sy'n fwy nodedig na'i gilydd. Dyna Kenry Street yn Nhonypandy yng Nghwm Rhondda. Gellid cynnal modiwl cyfan mewn cwrs gradd yn trafod y llenorion Cymraeg a fu'n byw ynddi! Symudodd Kate Roberts a'i gŵr Morris Williams o 8 Lôn Isa, Rhiwbina, i fyw yn 7 Kenry Street yn 1931 ac aros yno nes iddynt symud i Ddinbych yn 1935. A bu eu cyfaill, y bardd a'r dramodydd J. Kitchener Davies (tad y Prif Lenor a'r Prifardd Manon Rhys a thad-cu'r Prifardd Owain Rhys), yn byw yn y stryd honno am rai blynyddoedd. Pan oedd yn dair blwydd oed, symudodd teulu'r cyn-Archdderwydd R. Bryn Williams i Kenry Street ac aros yno am ryw bum mlynedd nes iddynt ymfudo i Batagonia yn 1910; a bu cyn-Archdderwydd arall yn cyrchu yno'n gyson o un o'r strydoedd cyfagos pan oedd yn ifanc, oherwydd yn Kenry Street yr oedd mam-gu a thad-cu Christine James yn byw. Yn Kenry Street hefyd yr oedd Will John, yr un a ddilynodd Mabon yn Aelod Seneddol dros Orllewin Rhondda, yn byw ar un adeg; a 144 Kenry Street oedd lleoliad y lloches i fenywod, 'Llety Cranogwen'.

A dyna William Street yng Nghilfynydd, ychydig i'r gogledd o Bontypridd. Hon yw'r stryd sy'n dal record y byd, mae'n siŵr, am bobl a chanddynt raddau er anrhydedd a fu'n byw ynddi, oherwydd derbyniodd pum person a fagwyd yn William Street raddau er anrhydedd gan Brifysgol Cymru – y cantorion Geraint Evans a Stuart Burrows, y gwleidydd Merlyn Rees, yr awdur D. Gwyn Jones, a Gareth Owen a fu'n brifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Roedd D. Gwyn Jones yn awdur cynhyrchiol. Ef a luniodd yr enseiclopedia i blant, *Chwilota*, a'r fersiwn Cymraeg o'r garol 'Pan oedd bugeiliaid gyda'u praidd', ac ef am flynyddoedd oedd golygydd *Y Gadwyn*, cylchgrawn Eglwys y Crwys. Cyhoeddodd ei wraig, Gwenllïan (hithau o gyffiniau Pontypridd), rai llyfrau i blant hefyd. Symudodd y ddau i'r Eglwys Newydd ar ôl i Gwyn gael ei benodi'n bennaeth adran arholiadau'r Cyd-bwyllgor Addysg, gan aros yno wedi iddynt ymddeol. A threuliodd Gareth Owen a'i wraig, Beti, hwythau, flynyddoedd eu hymddeoliad yn yr Eglwys Newydd.

Yng nghyd-destun Caerdydd, heol nodedig iawn am amlder ei thrigolion adnabyddus dros y blynyddoedd yw Heol Shirley ger Parc y Rhath. Codwyd yr heol o tua 1905 ymlaen ar dir fferm Pen-y-waun, sef pen gogleddol y Waun Ddyfal. Mae'n rhyw fath o estyniad i Heol Pen-y-waun, gan ddisgyn o ochr ogleddol yr heol honno at y cylchdro ger Parc y Rhath, lle y mae'n ymuno â Heol y Dderwen Deg (*Fairoak Road*). Fe'i henwyd ar ôl Lewis Vincent Shirley, neu Sherley (1828–85), a aned yn Hendon yn Middlesex ac a ddaeth yn bartner mewn cwmni cyfreithiol yng Nghaerdydd. Roedd yn byw ym Mhlasnewydd yn y Rhath (a elwid hefyd yn 'Roath Castle'; Clwb Chwaraeon Mackintosh ydyw erbyn hyn), a bu'n asiant i stad Mackintosh ac yn ymgynghorydd cyfreithiol i Ardalydd Bute. Gadawodd £74,000 yn ei ewyllys – gwerth tua £12 miliwn yn arian heddiw.

Mae sawl un a fu'n byw yn Heol Shirley yn haeddu erthygl gyfan iddynt eu hunain, ond dyma ychydig sylwadau am rai o'r amlycaf o'i thrigolion, gan ddechrau gyda dau hanesydd dylanwadol, sef E. Ernest Hughes (1877–1953) ac R. T. Jenkins (1881–1969), a fu'n gyd-ddisgyblion yn ysgol ramadeg y Bala ac a fu hefyd yn byw yng Nghaerdydd yr un pryd â'i gilydd am gyfnod byr.

Symudodd **Ernest Hughes** i Gaerdydd yn 1905 pan benodwyd ef yn ddarlithydd hanes yng Ngholeg y Brifysgol, a bu yno hyd 1920 pan symudodd i Goleg Prifysgol newydd Abertawe, gan ddod yn Athro Hanes cyntaf y coleg hwnnw yn 1926. Yn Abertawe, fel yng Nghaerdydd, rhoddai bwys mawr ar ddysgu hanes Cymru. Darlithiai yn helaeth ac yn frwdfrydig i ddosbarthiadau allanol a chymdeithasau diwylliannol, a gallai R. T. Jenkins ddweud mewn ysgrif goffa amdano, fod Ernest Hughes wedi gwneud mwy na neb er O. M. Edwards i boblogeiddio hanes Cymru – dweud mawr. Gwnaeth hefyd gyfraniad pwysig i fyd y ddrama, gan gynnwys bod yn fwy cyfrifol na neb fod drama newydd gan W. J. Gruffydd, *Beddau'r Proffwydi*, wedi ei pherfformio yn y Theatre Royal yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 1913 – datblygiad arwyddocaol iawn yn hanes y ddrama Gymraeg.

Daeth **R. T. Jenkins** i Gaerdydd yn 1917, pan benodwyd ef yn athro hanes yn Ysgol Uwchradd y Bechgyn. Trwy wraig Ernest Hughes, trefnwyd iddo ef a'i wraig rentu fflat uwchben siop groser yn 1 Heol Shirley. Symudasant i'r fflat tua diwedd 1918 a buont yno am ryw flwyddyn cyn mynd i fyw i dŷ newydd sbon yn Lôn-y-dail, Rhiwbina; ac yn Lôn-y-dail (yn rhif 4, ac wedyn yn rhif 24) y buont nes symud i Fangor yn 1930, pan benodwyd R. T. Jenkins yn ddarlithydd yn adran newydd Hanes Cymru yng Ngholeg y Brifysgol

yno. Roedd yn awdur dawnus a difyr. Cyfrannai'n rheolaidd i gylchgrawn *Y Llenor*, ac nid yw hynny'n syndod, efallai, o gofio ei fod yn byw y drws nesaf i'r golygydd, W. J. Gruffydd, yn Rhiwbina; ac yn Rhiwbina yr oedd pan ysgrifennodd ei glasur *Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif*.

Un a fu'n byw yn 1 Heol Shirley cyn R. T. Jenkins oedd **David Evans** (1842–1914). Yno yr oedd pan gyhoeddwyd ei gyfrol *Cymeriadau a Chymanfaoedd Hynod: Adgofion* yn 1910. Symudodd i Gaerdydd yn 1907 wrth ymddeol o fod yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Heol Awst, Caerfyrddin. Roedd ef a'i frodyr, Dr Owen Evans, Llundain a Thomas Evans, Amlwch, ill tri yn weinidogion gyda'r Annibynwyr. Rhai o ogledd sir Drefaldwyn oeddynt, a dywedir fod eu mam-gu yn berthynas agos i'r emynyddes Ann Griffiths. Ymhlith disgynyddion David Evans mae'r cyn -Archdderwyddon Jim Parc Nest a John Gwilym a'u brawd, y Prifardd Aled Gwyn.

Byddai gan 6 Heol Shirley le amlwg am flynyddoedd lawer yn hanes Symudiad Ymosodol y Methodistiaid Calfinaidd am mai dyna gartref **Tydvil a John Thomas**, rhai o arweinwyr blaenllaw y Symudiad.

Yn ystod ail hanner y 19eg ganrif, bu twf mawr yn y boblogaeth o boptu i ganol Caerdydd, mewn ardaloedd fel Treganna a Grangetown yn y gorllewin a'r Rhath a'r Sblot yn y dwyrain. Gwelwyd caeau'r ffermydd yn diflannu o dan resi ar ben rhesi o dai a gwelwyd hefyd ymdrechion cynyddol i efengylu a phlannu eglwysi yn y cymunedau newydd hynny.

Un a gyfrannodd yn arwyddocaol at y gwaith efengylu hwnnw oedd John Pugh (1846–1907), brodor o sir Drefaldwyn a ddaeth i Gaerdydd yn 1889 i fod yn weinidog eglwys y Methodistiaid Calfinaidd (neu Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhoi i'r enwad ei enw arall, diweddarach) ar gornel Stryd Clifton a Heol Casnewydd. Dechreuodd John Pugh drefnu ymgyrchoedd efengylu ac arweiniodd hynny yn 1892 at sefydlu'r 'Symudiad Ymosodol' (neu'r 'Forward Movement' yn Saesneg) yn fraich genhadol swyddogol i Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a John Pugh yn arolygydd. Codwyd tua 50 o neuaddau efengylu gan y Symudiad Ymosodol yn ystod y 15 mlynedd y bu John Pugh yn arolygydd, y rhan fwyaf o lawer ohonynt ym Morgannwg a Mynwy, a naw o'r rheini yng Nghaerdydd.

Roedd un o'r neuaddau hynny yn Heol yr Eglwys Newydd ar y Mynydd Bychan (lle mae 'Heath Evangelical Church' erbyn hyn). Dyna'r achos, meddid, a gynyddodd fwyaf o holl ganghennau'r Symudiad Ymosodol. Codwyd ysgoldy ar y safle yn 1900, a oedd yn dal tua 300 o wrandawyr, ar gost o £950. Gwelwyd twf yn nifer y mynychwyr, yn enwedig yn sgil Diwygiad 1904/05, ac yn 1906 codwyd neuadd ar gost o bron £4,000, a honno'n dal 900 o wrandawyr; a dyna'r capel sydd yno hyd heddiw.

Un o'r rhai a osododd y meini coffadwriaethol yn yr adeilad newydd mewn seremoni yn Ebrill 1906 oedd **Mrs Tydvil E. Thomas**, Ysgrifennydd Cangen y Menywod o'r Symudiad Ymosodol. Roedd yn un o deulu blaenllaw yn Hermon, eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Nowlais, a'i thad, J. B. Evans (1836–1905), yn fasnachwr cyfoethog. Graddiodd yn BA o Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth yn 1898, yr un flwyddyn â'r hanesydd Ernest Hughes a deng mlynedd ar ôl ei brawd, J. Young Evans (1865–1941), a ddaeth maes o law yn Athro yng ngholegau'r Methodistiaid Calfinaidd yn Nhrefeca ac Aberystwyth.

Yn Nhachwedd 1904, priododd Tydvil Eleanor Evans â **John Thomas** (1867–1934), brodor o Efailnewydd ger Pwllheli. Symudodd ef yn 1903 o fod yn weinidog yn Acrefair ger Rhiwabon i Gaerdydd, i fod yn gynorthwyydd i John Pugh, ac fe'i penodwyd yn Ysgrifennydd Cyffredinol y Symudiad Ymosodol yn 1911. Bu John Thomas hefyd yn bugeilio achos y Symudiad Ymosodol ar y Mynydd Bychan rhwng 1903 ac 1905.

Symudodd Tydvil a John Thomas i Heol Shirley tua diwedd 1906, ac yn 6 Heol Shirley yr oeddynt yn byw pan oedd Tydvil yn un o'r rhai a drefnodd gasglu llofnodion yng Nghaerdydd ar gyfer Deiseb Heddwch Menywod Cymru 1923–24.

Roedd Tydvil Thomas yn ffigur cyhoeddus amlwg iawn yn ei dydd. Adeg ymweliad ganddi hi a'i gŵr ag America yn 1919, dywedwyd ei bod 'gyn enwoced ag yntau ar gyfrif ei hynni, ei gallu, a'i gwaith' a bod ganddi 'dalent arbennig i siarad yn gyhoeddus', er nad oedd mor rhugl ei Chymraeg â'i phriod. Bu'n weithgar mewn sawl cylch, nid lleiaf gydag Undeb Dirwestol Merched y De. Ac yn ogystal â bod yn Ysgrifennydd Cangen y Menywod o'r Symudiad Ymosodol, bu Tydvil Thomas hefyd yn Ysgrifennydd 'Cartref Treborth', lloches i fenywod a agorwyd yn 1905, yn sgil y Diwygiad, gan y Symudiad Ymosodol yn Heol y Gorfforaeth, Grangetown – gwaith a ehangwyd yn 1908 yn dilyn prynu tŷ sylweddol o'r enw 'Kingswood' yn Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Treganna.

Gweinidog amlwg arall gyda'r Methodistiaid Calfinaidd oedd **Thomas Bowen**, awdur *Dinas Caerdydd a'i Methodistiaeth Galfinaidd* (1927). Fe'i ganed yn Llaneirwg, ond symudodd y teulu i Gaerdydd pan oedd yn bum mlwydd oed. Dywedir iddo, yn ddyn ifanc, ymdaflu i fywyd Cymraeg Caerdydd 'gydag ynni ac ymroddiad'. Roedd yn un o ysgrifenyddion 'Undeb Ysgolion Sabothol Cymraeg Caerdydd', a sefydlwyd yn 1886 i 'argraffu yn ddwys ar feddwl y rhieni y pwys o defnyddio y Gymraeg fel iaith y teulu' am fod 'ugeiniau o blant Cymru yn mynychu addoldai Cymraeg, a heb fod yn deall yr efengyl a bregethir yn yr addoldai hynny'. Bu Thomas Bowen yn weinidog gyda'r Symudiad Ymosodol yn Heol Monthermer (safle 'Highfields Church' erbyn hyn) rhwng 1912 ac 1916. Yn 1916, fe'i penodwyd yn Ysgrifennydd y Gronfa Gynorthwyol newydd a grëwyd gan enwad y Methodistiaid Calfinaidd yn ne Cymru, a'r adeg honno roedd yn byw yn 26 Heol Shirley.

Gweinidog arall a fu'n byw yn Heol Shirley, yn rhif 63, oedd **J. H. Miles**, a ddefnyddiai'r ffugenw 'Plinius' ac a oedd yn aelod gyda'r Bedyddwyr yn y Tabernacl ar yr Ais. Roedd yn weinidog ym Mwlch-gwynt ger Hendy-gwyn ar Daf cyn symud i Gaerdydd yn 1884. Yn awdur a chyhoeddwr cynhyrchiol, fe'i penodwyd yn oruchwyliwr 'Cymdeithas Lyfrau Bedyddwyr Cymru' a sefydlwyd yn 1891, a bu am gyfnod yn niwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif yn llyfrwerthwr yn 2 Arcêd y Frenhines, gan gynnig gostyngiadau i weinidogion a phregethwyr ar lyfrau Cymraeg a Saesneg.

Mab i weinidog gyda'r Bedyddwyr oedd **Idwal**

**Machno Humphreys** (1893–1919). Enillodd ei dad, Richard Machno Humphreys (1852–1904), y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl y flwyddyn y bu farw. Symudodd Idwal i Gaerdydd yn 1914 i fod yn is-olygydd ar y *Western Mail*, gan fyw gyda'i fam weddw a'i chwaer yn 19 Heol Shirley. Ymunodd â'r fyddin yn 1917 a bu farw o'r darfodedigaeth yn 1919, ar ôl ei ddal pan oedd yn garcharor rhyfel yn yr Almaen.

Symudodd **David Caxton Davies** (1873–1955) i Gaerdydd yn 1910 ac ymgartrefu yn 67 Heol Shirley. Brodor o Lanbedr Pont Steffan ydoedd. Roedd yn rheolwr 'Cwmni y Wasg Eglwysig Gymreig' yn y dref honno rhwng 1898 ac 1904 a bu am gyfnod yn rheolwr cwmni argraffu a chyhoeddi enwog William Lewis pan oedd yn byw yng Nghaerdydd. Yn addas iawn o gofio fod 'Caxton' yn enw ar argraffydd arloesol o'r 15fed ganrif, rhoddwyd MA er anrhydedd gan Brifysgol Cymru i D. Caxton Davies yn 1947 am ei gyfraniad i fyd cyhoeddi yng Nghymru, ac yn enwedig i gyhoeddi Cymraeg. Roedd yn un o sylfaenwyr Clwb Rotari Caerdydd ac yn aelod blaenllaw yn Eglwys Dewi Sant; ac yn Eglwys Dewi Sant y cynhaliwyd ei wasanaeth angladdol.

Bu un arall a ymddiddorai'n fawr ym myd y llyfr yn byw yn 67 Heol Shirley ar ôl Caxton Davies, oherwydd dyna gartref **Alun ac Eleanor Mathias** am flynyddoedd lawer, y ddau yn aelodau ffyddlon yn Eglwys Minny Street a'r ddau yn gymwynaswyr mawr mewn sawl cylch. Darlithydd yn yr Adran Addysg yng Ngholeg y Brifysgol oedd W. Alun Mathias (1916–2002). Roedd yn ysgolhaig o'r radd flaenaf ac yn awdurdod mawr ar William Salesbury, y cyhoeddwyd ei gyfieithiad o'r Testament Newydd i'r Gymraeg yn 1567. Roedd hefyd yn olygydd profiadol iawn. Ef a olygodd gyfrol cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol y Barri a'r Fro yn 1968 a chyd-olygodd *Dysg a Dawn* (1992), cyfrol goffa i'w gyfaill agos a'i gyd-ddarlithydd yng Ngholeg Caerdydd, Aneirin Lewis (1924–89). Roedd y ddau yn gasglwyr llyfrau brwd ac yn rhai o swyddogion cynnar Cylch Llyfryddol Caerdydd yn niwedd yr 1980au; ac un o gymwynasau Eleanor, gwraig Alun, oedd llenwi bwlch mawr yng nghasgliad Llyfrgell Prifysgol Caerdydd trwy roi i'r Llyfrgell ei gopi ef o Destament Newydd 1567.


*Merêd*
*Llun: S4C*

Magwyd Alun yng Nghaerdydd i deulu a oedd â'i wreiddiau yng ngorllewin Cymru, ac un o ogledd sir Benfro oedd ei wraig, Eleanor, a fu farw yn 2004. Gwnaeth hi gyfraniad mawr ym myd darlledu Cymraeg. Meddai'r newyddiadurwr Gwilym Owen yn ei hunangofiant *Crych Dros Dro* (2003) am ei chyfraniad i raglen *Y Dydd*: 'Mrs Eleanor Mathias – y Golygydd Newyddion – merch arbennig iawn. Roedd hi'n rhoi ei phopeth i'r rhaglen ac roedd ei phryder ynglŷn â chywirdeb ieithyddol yn fwy gwerthfawr na dim. Perl o wraig broffesiynol oedd Eleanor a'i theyrngarwch yn batrwm i bawb.'

Roedd cartref **Rosentyl a Bryneilen Griffiths** yn Heol Shirley bron gyferbyn â chartref Alun ac Eleanor Mathias. Ganed y ddwy yn Nowlais, yn ferched i Tom Griffiths ('Brydan'; 1869–1953), awdur a golygydd a weithiai i'r cyhoeddwyr cynhyrchiol a dylanwadol 'Cwmni Cyhoeddi Addysgol/ Educational Publishing Co.', a sefydlwyd yn 1897 ac a brynwyd gan Hughes a'i Fab yn 1927. Meddygon oedd y ddwy. Agorodd Dr Rosentyl Griffiths (1903–99) bractis yn 1931, ac ymunodd ei chwaer, Dr Bryneilen Griffiths (1905-91), â'r practis yn 1933. Etholwyd Rosentyl yn Gymrawd o'r 'British Medical Association' yn 1979, ac mae llun dyfrlliw ohoni gan Claude Marks yn Amgueddfa Cymru.

I astudio meddygaeth yn y brifysgol, roedd rhaid wrth gymwysterau mewn Ffiseg a Chemeg. Ni chynigid y pynciau hynny i ferched yn yr ysgol uwchradd yng Nghastell Cyfarthfa yr oedd Rosentyl yn ddisgybl ynddi, ond roedd hi'n benderfynol o astudio i fod yn feddyg. Gwnaed trefniadau arbennig iddi astudio'r pynciau hynny yn yr ysgol, a dilynodd Bryneilen yn ôl traed ei chwaer. A diddorol gweld y ddwy maes o law yn sefydlu cronfa i wobrwyo'r bachgen a'r *ferch* yn Ysgol Cyfarthfa a enillai'r marciau uchaf mewn Ffiseg yn eu harholiadau Safon A.

Mae gwobr hefyd yn enwau'r ddwy yn Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd i'r 'myfyriwr sydd wedi cyrraedd y safon uchaf wrth gyflwyno sylwadau Obstetreg a Gynaecoleg'. Yn ogystal, rhoddwyd arian ganddynt i'r Eisteddfod Genedlaethol i greu 'Gwobr Goffa Tom Griffiths, Brydan', a rhoddir gwobr yn yr Eisteddfod hefyd er cof am y ddwy yn y gystadleuaeth ar gyfer cyfansoddi erthygl wyddonol.

Amser a gofod a balla i sôn am ragor o drigolion Heol Shirley, ond cyn cloi rhaid crybwyll dau arall, a ninnau wedi cyrraedd rhifyn 500 o'r *Dinesydd*, sef **Dr Meredydd Evans a'i wraig, y gantores Phyllis Kinney**. Daethant i Gaerdydd gyda'u merch Eluned yn 1963, pan benodwyd Merêd yn Bennaeth Adran Adloniant Ysgafn BBC Cymru. Rhannodd Eluned rai o'i hatgofion am Heol Shirley â mi, ac rwy'n ddiolchgar iddi am ei chaniatâd i'w cyhoeddi yma:

> Symudasom i 81 Shirley Road rywbryd ym mis Medi neu Hydref 1963 ac roeddwn i wrth fy modd yn y tŷ. Roedd yn dŷ reit fawr, yn dri llawr â fflat ar y top. Roedd mam a dad yno am ryw ddeng mlynedd, tan 1973 pan symudon nhw i fflat yn Llanrhymni. Roedd dad wedi gadael y BBC y flwyddyn honno ac ymuno ag Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol yng Nghaerdydd. Rwy'n cofio'r tŷ yn dda iawn, yn enwedig yr adeg pan oedd [y cynhyrchydd teledu] Ruth Price yn byw yn y fflat dop; a daeth [y dramodydd] Rhydderch Jones i fyw yno yn nes ymlaen. Cawsom lawer o hwyl a phartïon di-ri! Un tro ddaru i mi ddeffro i sŵn pibgod ryw nos Sadwrn pan ddaeth aelodau o dîm rygbi'r Alban yn ôl i barti yn y tŷ. Dro arall daeth rhai o dîm Ffrainc i barti!

'Babi Merêd' oedd *Y Dinesydd*. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf ym mis Ebrill 1973, yn dilyn misoedd o drafod a chynllunio; ac felly gallwn ddweud mai Heol Shirley oedd man geni'r *Dinesydd*.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Cafwyd cyfarfod hwyliog o Aelwyd Hamdden Caerdydd ddydd Mercher 28 Mai yng nghwmni Alun Tudur Jenkins. Yn frodor o Frynaman, cawsom sgwrs ddifyr yn cwmpasu ei fagwraeth wrth droed y Mynydd Du, ei yrfa fel athro a phrifathro a'i waith fel sylwebydd chwaraeon ar gyfryngau Cymru.

Clywsom hanes rhai o gymeriadau ac enwogion bro ei febyd, am ei ddiddordeb brwd ym myd y ddrama yn ddyn ifanc wrth actio gyda chwmnïau amatur lleol, am ei gefndir diwylliannol wrth gystadlu gydag Aelwyd Amanwy yn eisteddfodau'r Urdd a dylanwad Capel Gibea ar ei fywyd.

Wedi ei hyfforddi'n athro yn y coleg yng Nghaerdydd, roedd ganddo straeon diddorol am ei waith o flaen y dosbarth am ddegawdau yn y de ddwyrain cyn gorffen ei yrfa yn brifathro ysgol gynradd ym Mhenarth. Â chanddo ddiddordeb byw mewn chwaraeon ers yn ifanc, eglurodd sut y llwyddodd i barhau â'r diddordeb hwnnw wrth dreulio ei amser hamdden yn teithio i bedwar ban yn sylwebu ar fyd y campau i BBC Cymru. Mawr yw ein diolch iddo am roi o'i amser i ddod atom.

Â'r haf wedi cyrraedd, cawsom de mefus bendigedig yn ein cyfarfod ar ddechrau mis Mehefin. Diolch i'r pwyllgor unwaith eto am drefnu'r wledd ar ein cyfer. A chafwyd cinio pen tymor yn nhafarn y Butcher's, Rhiwbeina - diweddglo hyfryd i flwyddyn lewyrchus.



Mae croeso cynnes i bawb yn ein cyfarfodydd a gynhelir yng Nghapel Bethel, Maes y Deri, Rhiwbeina am 11 o'r gloch am yn ail fore Mercher, fel arfer.

Bydd Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd yn ail gydio yng ngweithgareddau'r hydref ym mis Medi. Os hoffech glywed siaradwyr diddorol, cymdeithasu dros baned a chwrdd â chyfeillion newydd, galwch draw. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Beth Killen ar 029 20566508.

## Merched Plastaf

Wedi llwyddiant yn yr Urdd eleni, roedd un daith yn weddill yn y calendr. Am 5.30 fore Mercher 9 Gorffennaf, cychwynnodd 40 o'r aelodau mewn bws i Langollen. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r côr fynd i'r Eisteddfod Ryngwladol. Ond nid ymweliad oedd hwn, roedd Merched Plastaf yn cystadlu am y tro cyntaf yn eu hanes. Cyrraedd ychydig wedi 9.00, syth i ymarfer, yna syth i newid, a chefn llwyfan erbyn 10.00. Roedd 9 o gorau yn y gystadleuaeth Côr Plant Hŷn – 4 o Gymru, 1 o Jersey, 1 o Zimbabwe a 3 o Loegr. Roedd yn gystadleuaeth gref, ac yn gyngerdd i'r gynulleidfa yn y Pafiliwn Rhyngwladol. A dyna ni, y cyfan drosodd, a'r merched wedi canu eu gorau glas, y cefnogwyr (5 ohonom) yn bloeddio cymeradwyaeth. Roedd pawb yn hapus iawn hefo'r perfformiad, a Caryl yn fwy na bodlon.

Gan mai hon oedd cystadleuaeth gyntaf y dydd, a chan na fyddai'r canlyniad yn cael ei gyhoeddi tan ganol y prynhawn, roedd cyfle i fynd am dro o amgylch y maes. Diwrnod hyfryd i ymlacio a gwerthfawrogi'r holl ganu, dawnsio a gwisgoedd lliwgar, clustfeinio ar sgyrsiau mewn gwahanol ieithoedd, a mwynhau heb bryderu am gystadlu'n ddiweddarach.

Yna, i'r Pafiliwn i glywed y canlyniad. Roedd angen talu sylw a gwrando'n astud achos traddodi beirniadaeth a rhoi marciau oedd y beirniaid, nid cyhoeddi 'cyntaf', 'ail' a 'thrydydd' fel sy'n arferol. Wedi gwrando, a chnoi ewinedd am 10 munud, dyma gyhoeddi'r marciau terfynol, a Merched Plastaf yn Ail …AIL! Os oedd 'na floeddio cymeradwyaeth wedi'r perfformiad, roedd 'na sgrechian llongyfarchiadau pan gamodd Caryl i'r llwyfan i gasglu'r wobr. Hollol haeddiannol os ca'i ddweud.

Cyn troi am adref, roeddem wedi cytuno i gymryd rhan mewn gorymdaith o amgylch y dref a mawr oedd y miri.

Wel am flwyddyn! Diolch bawb

Os hoffech gysylltu â'r côr, y cyfeiriad yw: merchedplastaf@gmail.com



# Bwytai Merch y Ddinas



## *Tafarn Yr Albany*

### Lowri Haf Cooke

Pen-blwydd hapus iawn i bapur bro *Y Dinesydd*! 500 rhifyn ers Ebrill 1973, pan ddaeth criw o wirfoddolwyr ynghyd i sefydlu papur bro cyntaf Cymru. Dwi di bod yn meddwl gryn dipyn am y garreg filltir hon, fyth ers clywed amdani ym nghyfarfod pwyllgor mis Gorffennaf. Beth fyddai'n haeddu lle yn y golofn hedonistaidd hon, sy'n dathlu lluniaeth a llawenydd? A beth mae e wir yn olygu i fod yn siaradwr Cymraeg yng Nghaerdydd, ac i fedru hawlio - 500 rhifyn o'r *Dinesydd* yn ddiweddarach - ein bod ni 'yma o hyd'?

I gael dechrau felly â'r cyfarfod pwyllgor hwnnw - ac arhoswch gyda mi, oherwydd nid cyfarfod cyffredin mohono, ond super-cyfarfod! Daeth pawb at ei gilydd ym mwyty Porro, Llandaf, am wledd o flasau Cymreig ac Eidalaidd. Nawrte cyn i chi ddechrau hymian 'Cân i Gymru' gan Datblygu, a chyhuddo'r *Dinesydd* o fod yn 'drên grefi', hoffwn eich sicrhau i bawb oedd yn bresennol dalu am eu pitsa a'u pasta eu hunain! (Ac os hoffech feicro adolygiad gen i, wel roedd fy tagliattelle boch-yr-ychen yn wych, a diolch yn fawr i Cara am y gwasanaeth Gymraeg, ac i waith Osian y cogydd yn y gegin.) Ar fy mhen i o'r bwrdd ges i gwmni difyr iawn, gan gynnwys Iestyn (swyddog hysbysebion), Manon (cadeirydd), Huw (y trysorydd), Ela (cyfryngau cymdeithasol) a John Hayes (is-gadeirydd) – fy nghyn-athro Daearyddiaeth yn Ysgol Glantaf!




Roedd yn noson andros o ddifyr, o ddarganfod rhagor am fy nghyd-Ddinesyddion, gan gynnwys llwyddiant criw ohonynt yn yr Eglwys Newydd. Sefydlwyd cymdeithas 'Melin' er mwyn hybu digwyddiadau Cymraeg yn lleol, gan gynnwys gigs a digwyddiadau mewn lleoliadau gwahanol yn y faestref ogleddol honno. Wrth wrando ar yr hanes, ces i f'atgoffa o holl hwyl a gweithgarwch fy ardal innau, yn nhafarndai a bwytai amrywiol y Rhath wrth i ni godi arian at Eisteddfod Caerdydd yn 2018 - ond a ddaeth i ben ddim sbel ar ôl hynny. Nes i adael bwyty Porro y noson honno wedi fy ysbrydoli'n llwyr, ond ddim yn siwr iawn beth i wneud...

Achos, fel ry' ni gyd yn gwybod, mae siarad Cymraeg yn y ddinas yn ymrwymiad; i nifer ohonom, dyw e jyst ddim yn 'digwydd' heb bach o ymdrech a derbyn ein rhan ni o'r cyfrifoldeb am y 'winllan a roddwyd i'n gofal' . Fel un a fagwyd yn y ddinas yn yr iaith Gymraeg, ro'n i wastad yn ymwybodol mod i'n rhan o'r 'lleiafrif'. Roedd cartref y teulu yn un ynys fechan mewn môr o dai teras a chefnfor o Seisnigrwydd, ond fel plant roedd ganddom sawl cwch i'n llywio'n ddiogel at ynysoedd eraill; yr ysgol, y capel, aelwydydd yr Urdd a'r cyfryngau torfol – fel S4C ac ie, *Y Dinesydd* - i wneud cysylltiad â siaradwyr Cymraeg eraill. Fel oedolyn, mae'n fater arall, yn enwedig yn ein cyfnod cyfoes ni, pan fo pawb yn teimlo dan bwysau am amryw resymau. Y peth hawsaf yn y byd fyddai aros adre ar ein soffas clyd a dibynnu'n llwyr ar y cyfryngau 'cymdeithasol' i deimlo'n rhan o gymuned ehangach. Ond faint o les mae hynny'n gwneud i gymdeithas, mewn gwirionedd, a'r ffordd ry' ni'n byw ein bywydau bob dydd? Dwi'n credu ein bod ni gyd yn gwybod yr ateb i hynny, wrth graffu go-iawn ar wleidyddiaeth gyfoes, stâd y newyddion, ac arnom ni'n hunain.

Dwi wastad yn llawn edmygedd i fusnesau dinesig sy'n hyrwyddo'r Gymraeg – gan gynnwys siopau, bwytai, caffis, bariau a thafarndai, sy'n denu siaradwyr Cymraeg at ei gilydd dros wledd (boed yn baned neu'n beint neu frecwast). Ymysg y rhai mwyaf amlwg y mae Canna Deli, Bant a La Cart a siopau Caban a Kiti ym Mhontcanna, West Pizza a Caffi Ffloc yn Nhreganna; Siop Cant a Mil dafliad carreg o Gabalfa, a Ffwrnes a Clwb Ifor Bach yng Nghanol y Ddinas – ynysoedd amlwg ar y map i nifer fawr. Ga i hefyd ychwanegu bwyty Mesen yn Rhiwbeina at y rhestr – llongyfarchiadau mawr iddynt, gyda llaw, ar eu hymgyrch farchnata ddiweddar, yn serennu neb llai na'r dinesydd Iwan Rheon, glasied o win a chopi o bapur newydd y Cymro!

Ond fel y gwyddom ni i gyd mae 'na siaradwyr Cymraeg o'n cwmpas ym mhobman – ond heb wybod yn y lle cyntaf eu bod nhw'n siarad yr iaith, pa obaith sy' 'na o sefydlu cysylltiad? Mae felly'n cymeryd ymdrech arwrol i wneud rhywbeth hynod syml, o ddechrau sgwrs neu rannu cyfarchiad yn yr iaith Gymraeg ym mhobman; i gymeryd y risg ac i wrthsefyll y 'crinj' o gael rhywun yn rhythu arnoch, mewn dryswch neu anwybodaeth.

Dyna dwi'n geisio'i wneud bob dydd, a dyna sut

dwi'n ehangu nghymuned i; mae'n ychwaengu gwerth anferthol i mywyd. A phan mae eraill yn gwneud yr un fath, pan dwi wedi blino ychydig bach, mae'n teimlo fel cael fy achub o'r tonnau gan geidwad y glannau, a chanfod ynys – ac antur – newydd. A dyna yn wir ddigwyddodd yn gynharach eleni, pan alwais i fewn i dafarn yr Albany yn y Rhath ar ddiwedd mis Ionawr. Gan feddwl am golofn bosib i bapur bro *Y Dinesydd*, holais wrth y bar os oedden nhw'n gweini bwyd; daeth ymateb y tafarnwr fel bwled o wn. 'Wyt ti'n siarad Cymraeg?' Fyth ers hynny dwi'n galw i fewn i'r dafarn yn llawen a thrwy Luke Williams o Lanedeyrn – sef rheolwr y bar - dwi wedi darganfod llu o gymdogion lleol sy'n siarad Cymraeg. (Dwi hefyd, gyda llaw, wedi cael blas ar frecwast y dafarn. Bendigedig. A phaned dda!)

Chwe mis yn ddiweddarach (a rhyw fis ar ôl y sgwrs yn Porro) dyma Luke a'i fam Paula yn penderfynu trio rhywbeth newydd, er mwyn eu busnes a chymuned y Rhath. Sefydlwyd 'sesiwn Gymraeg' rhwng 7 a 9 bob nos Lun, i bawb o bob gallu Cymraeg. Nid dim ond sesiwn i ddysgwyr, ond hefyd siaradwyr iaith gyntaf – wedi'r cyfan, pa ffordd well o gynnig ymdrochiad o iaith fywiog y brifddinas? Ro'n i wir yn llawn nerfau wrth fynd yno ar y noson gyntaf – y nos Lun ar ôl 'steddfod Wrecsam. Pwy fyddai yno tybed? Beth fyddai dan sylw? A fydden i'n perthyn, neu'n teimlo allan ohoni'n llwyr? Rhaid bod pawb yn teimlo felly o bryd i'w gilydd... Wel, beth sy'n fwy syml na sgwrs dros beint - o Brains SA am £2.70 ar nos Lun, neu lasied o win neu ddiod ysgafn - paced o





greision, ac arlwy o diwns Cymraeg ar y jiwcbocs? Bu canmoliaeth gan sawl un i aduniad Anweledig ar faes y Brifwyl, felly dewisais i chwarae 'Cae yn Nefyn'. Ac erbyn i 'Yma o Hyd' gael ei chwarae – a'i floeddio gan bawb yn llawen - dwi'n credu i ni gyd sylweddoli ein bod ni newydd blannu baner ar ynys newydd i'r Gymraeg yn y ddinas.

Tafarn yr Albany, 105 Stryd Donald, Y Rhath CF24 4 TL; 02920 311075

*Gwledd*, *Bwytai Cymru*, *Caffis Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke – ar werth yn eich siop lyfrau lleol neu www.gwales.com



# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS DEWI SANT

**Digwyddiadau Cerddorol**

Cynhaliodd Cerddorfa Dovetail, y gerddorfa sy'n gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghaerdydd ac yn ymarfer yn wythnosol yn yr eglwys, gyngerdd diwedd tymor ddydd Iau, 24ain Gorffennaf. Cafwyd cyfle i sgwrsio gydag aelodau'r gerddorfa dros baned wedi'r cyngerdd.

Nos Iau, 24ain Gorffennaf, cynhaliwyd Cyngerdd Côr y Gleision yn yr eglwys. Yr unawdydd oedd Ffion Thomas, enillydd gwobr Bryn Terfel, yr Urdd 2025.

Dydd Gwener, 8ed Awst, cafwyd datganiad organ caboledig gan Philip Aspden (Ysgol y Gadeirlan), a'i ddewis o ddarnau yn gweddu'n berffaith i organ Y Tad Willis.

**Coffi a Chlonc**

Fore Sadwrn 19eg, Gorffennaf cynhaliwyd y bore coffi olaf cyn gwyliau'r haf. Cafwyd bore dymunol iawn a sgwrsio difyr.

**Stondin Cynnyrch Cartref**

Diolch i bawb a gyfrannodd nwyddau i'r stondin ac i Dilys Jones a Heulwen Jones am drefnu a chydlynu. Casglwyd £265.88 tuag at waith Cymorth Cristnogol. Gyda'r casgliad amlenni bydd cyfraniad yr eglwys i'r elusen yn £753.38.

**Gwibdaith Aberglasne**

Bu'r tywydd yn garedig ar gyfer y wibdaith i Erddi Aberglasne, ddydd Mawrth, 22ain Gorffennaf. Wedi cinio blasus dros ben yn y Plough, Rhosmaen ymwelwyd â'r gerddi a gwrando ar sgwrs ddifyr am hanes llanw a thrai y tŷ a'r gerddi, gan ganolbwyntio ar y cymeriadau diddorol a fu'n byw yno. Diolch i Delyth Davies am gydlynu'r daith ac i Siân Thomas am drefnu'r tywysydd.



**Anrhydedd**

Llongyfarchiadau i Tim Saunders am ennill cwpan *Kowethas an Yeth Kernewek* am ei lyfr *Termynyow a Dheu*, sef casgliad o gerddi yn yr iaith Gernyweg.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Megan Poulson a Matt Parry ar eu priodas yn ddiweddar. Pob bendith iddynt.

**Yr Ysgol Sul**

Cafodd yr Ysgol Sul seibiant dros yr haf. Diolch i Liz Harewood a'i thîm am eu gwaith dros y flwyddyn.

**Cydymdeimlo**

Gyda gofid y derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth tri o'n ffyddloniaid Ann Wyn Jones, Goronwy Jones, a Megan Davies. Cydymdeimlir yn ddwys â David ac Yolande a'r teulu, Ann, a Sylvia, Gethin a Mererid a'u teuluoedd a hefyd â Delyth, nith Megan.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Llongyfarchiadau enfawr i'n hieuenctid ar ganlyniadau rhagorol yn yr arholiadau yn ystod yr haf. Rydym fel Eglwys yn falch iawn ohonynt.

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Roeddem yn hynod o falch gweld Côr CF1 yn derbyn yr anrhydedd o Gôr yr Ŵyl.

Roedd yn braf gweld un o'n hieuenctid, Hannah Roberts, yn rhan o'r triawd offerynnol yn Seremoni Cyfansoddwr yr Ŵyl. Mae Hannah yn aelod o Gerddorfa Symffonia Cymru.

Rydym yn anfon ein cyfarchion at Bob Roberts sydd wedi derbyn triniaeth yn ystod yr haf. Adferiad llwyr a buan iddo. Mae'r Crwys yn wag hebddo.

Diolch i Eglwysi Cymraeg Caerdydd am eu croeso yn ystod mis Awst. Roedd yn hyfryd cael cyd-addoli.

**Cydymdeimlad**

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â Catherine Jobbins yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Alan. Mae ein meddyliau gyda Catherine, Siôn, Siwan a Siân a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn hefyd â'r Parch Glyn Tudwal Jones yn ei brofedigaeth o golli ei frawd, Emyr, yn Aberystwyth. Roedd Emyr yn ddarlithydd yn yr Adran Ffrangeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Y Gymdeithas**

Bydd Tymor yr Hydref yn cychwyn ar Fedi'r 13eg gyda Te Mwyar Duon yng nghartref Arthur a Diana Evans yn yr Eglwys Newydd. Mae rhaglen y tymor yn argoeli'n dda dros ben.

**Trefn Gwasanaethau mis Medi**, yr oedfaon am 10.30 a 6.00 o'r gloch: Croeso cynnes i bawb.

14 Medi: Parch. Denzil John
21 Medi: Bore Mr Thomas Williams; Hwyr: Eglwys Minny St.
28 Medi: Parch. Glyn Tudwal Jones
5 Hydref Bore: Dim Oedfa; Hwyr: Parch. Dafydd Andrew Jones (Oedfa Gymun)

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Gan na fu Offeren Gymraeg yn mis Awst, edrychwn ymlaen at gwrdd eto yn Eglwys Teilo Sant ar Sul olaf Medi. Dymunwn yn dda i'r myfyrwyr sy'n symud ymlaen i'r Coleg a'r Brifysgol yn ystod y mis yma.

Cynhaliwyd Offeren yr Eisteddfod eleni yn y Gadeirlan yn Wrecsam. Daeth cynulleidfa niferus at ei gilydd i lenwi'r eglwys a chafwyd canu hwyliog dan arweiniad y côr. Esgob Emeritws Edwin Regan oedd yn llywyddu a thraethwyd y bregeth gan y Tad Gwilym M Evans, FSSP. Cafodd y Tad Gwilym ei fagu ym Mro Morgannwg, ond ar hyn o bryd mae'n astudio yn yr École Biblique gyda'r Dominicaniaid yn Jerwsalem. Roedd aelodau o'r plwyf wedi paratoi gwledd i groesawu pawb i'r neuadd ar ôl yr Offeren, felly roedd digon o gyfle am sgwrs gyda ffrindiau ac aelodau o'r Cylch Catholig dros baned.

Yn ystod mis Medi eleni, mae'r Eglwys yn nodi deng mlynedd ers cyhoeddi llythyr bugeiliol Pab Ffransis *Laudato Si*. Wrth nodi'r pen-blwydd, cawn ein hatgoffa o'r cyfrifoldeb sydd arnom i warchod creadigaeth Duw. Mae'n gyfle i ystyried eto ein gofal dros ein byd, ac mae'r Pab Leo hefyd nawr yn ein herio i edrych o'r newydd ar ein perthynas â'r greadigaeth. Mae'n galw arnom i weithredu mewn ymateb i argyfwng y byd sydd ohoni, yn rhyfeloedd a thrychinebau naturiol, a gweddïo'n gyson am heddwch a chyfiawnder.

Offeren fisol yn Gymraeg: Eglwys Teilo Sant, dydd Sul 28 Medi, 4.30pm.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet
Gweinidog: Parchg. Owain Llŷr Evans

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Bu'r croeso ym mhob eglwys ym mis Awst yn gynnes; roedd hi'n braf cael cydaddoli mewn pum eglwys wahanol eleni. Edrychwn ymlaen, bellach, at fwrlwm blwyddyn eglwysig newydd ym Minny Street. Dyma drefn yr oedfaon: oedfa foreol yn cael ei chynnal bob Sul am 9:30 gydag oedfa bregethu am 10:30 ar yr ail Sul; oedfa hwyrol am 18:00 bob Sul. Wedi seibiant dros yr haf, bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau ar 7 Medi ac yn cwrdd bob Sul ar wahân i'r ail Sul pan fydd oedfa deulu yn y festri. Ar y trydydd Sul yn y mis, cynhelir Ysgol Sul i'r plant hŷn; bydd PIMS yn cyfarfod yn fisol am 17:00 ar brynhawn Sul cyntaf y mis. Bydd cyfle i ymuno â sawl oedfa drwy gyfrwng *Zoom.*

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 7, 14 a 21 Medi. Bydd oedfa'r hwyr ar y 7 Medi yn oedfa gymun. Cynhelir ein Gŵyl Flynyddol ar 21 Medi; yn yr hwyr estynnir croeso i gyfeillion eglwysi Cymraeg eraill y ddinas i'n plith pan fydd y Parchedig John Roberts, Aberystwyth yn pregethu. Ar Sul olaf y mis, Ifan Roberts, Pentyrch fydd yn arwain oedfa'r bore; Noa Evans, Caerdydd fydd yn arwain addoliad yr hwyr. Edrychwn ymlaen at groesawu'r ddau.

**Gweithgarwch y mis**

Bydd amserlen y daith breswyl i sir Benfro ddechrau'r mis yn llawn ac yn amrywiol. Ganol y mis (16 Medi), cynhelir y cyfarfod cyntaf mewn cyfres newydd o dan y pennawd *Zoominny.* Yn y sesiynau hyn, bydd y Gweinidog yn cyflwyno emyn, cerdd neu ddarn o gelfyddyd ac yna bydd cyfle i bawb drafod. Cawn ysbrydoliaeth ac arweiniad pellach ganddo yn sesiwn gyntaf Bethania (23 Medi). Bydd rhaglen bythefnosol y Gymdeithas yn ailddechrau nos Fawrth, 30 Medi gyda Swper Cynhaeaf yn y festri: noson i gydnabod a chyd-ddathlu bendith bwyd yng nghwmni ein gilydd. Parhau hefyd fydd cefnogaeth yr eglwys i nifer o elusennau, gan gynnwys y Ganolfan Glyd ar brynhawniau a Mercher.

**Genedigaethau**

Croeso cynnes i Gruffydd Alun Fletcher, mab cyntaf Sioned a Luke ac ŵyr i Mair ac Alun Treharne. Croeso mawr hefyd i Lili Betsan, merch Rhiannon a Mark, chwaer Alffi ac wyres i John Wilkins. Pob dymuniad da i'r ddau deulu.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon / Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m.) Mis Medi:**

7 - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
14 - Gwilym Williams, Caerdydd
21 - Oedfa (i'w threfnu)
28 - Marc Jon Williams

Bum yn pori yn rhifynnau 1875 o "Y Tyst a'r Dydd, ac yn rhifyn 21 Mai 1875, wele fawl i Waelod-y-garth (yn yr orgraff wreiddiol):-

"Y mae y lle uchod wedi cael ei adeiladu ar ddarn o dir prydferth iawn, wrth odreu mynydd y Garth, a'i wyneb yn gwynebu tua chodiad brenin y dydd.

O'i flaen, yn y dyffryn, rheda yr hen afon Taf yn un elfen deneu ysplenydd tua'r mor…

Y mae y lle hwn yn farddonol dros ben…Yr ydwyf wedi eistedd llawer awr yn mhlith y coedydd sydd yn ymyl y lle hwn i wrandaw ar gôr y wig yn rhoddi mawl i'w Creawdwr o blith eu canghenau, nes gyrru awydd arnaf finnau i uno a'u mawl bendigedig lawer gwaith cyn heddyw.

O mor hyfryd oedd gwrandaw arnynt yn arllwys eu mawl o blith y dail, nes oeddwn yn meddwl fod Gwaelod y Garth yn fawl i gyd. Ac yn y meddwl torais allan i waeddi, "Gwaelod y Garth annwyl, ti oll ydwyt deg, dy Dduw a'th greodd yn hardd, Efe a lanwodd dy faesydd a mawl, ac ar dy lechweddau parodd efe anian a natur i ymdaenu bob amser.

Y mae braint fawr ynglyn â'r lle hwn hefyd, sef crefydd.

Y mae crefydd wedi blodeuo yn y lle hwn …ac addysg yn cael ei gefnogi yn fawr… ac y mae pob argoelion yn arwyddo y bydd crefydd a phob peth arall i lwyddo yn y lle hwn.

Ac yn mysg pob peth gellir dywedyd fod hwn yn un o'r pentrefydd prydferthaf yn yr holl fyd. GOMERYN (Mr Gomer Thomas, Pentyrch)."

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu chwithau 'nôl gartref wedi'r gwyliau.

## BETHEL, RHIWBEINA

Ar ddiwedd Gorffennaf cynhaliwyd Bore Coffi yn y capel i godi arian at yr elusen Ymchwil Canser Cymru. Yn ystod y bore cawsom anerchiad byr gan Patrick Barry sy'n wirfoddolwr yn y siop elusen yn yr Eglwys Newydd. Hefyd cawsom adloniant ysgafn gan Sian Francis a Dominic Barry ac fe gasglwyd swm o dros £400 ar gyfer yr elusen.

Cydymdeimlwn â Jane Bowen a gollodd ei brawd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Llongyfarchiadau a dymuniad da i Myfanwy a Tony Clarke a fu'n dathlu eu priodas aur yn ystod mis Awst.

Wedi seibiant dros yr Haf mae'r gwasanaethau yn ail - ddechrau ar Fedi'r 7fed pan fydd Helen Jones yn pregethu. Mae'r gwasanaethau yn cychwyn am 10.15 bob bore Sul ac mae croeso cynnes i bawb.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Llongyfarchiadau**

Llawenhawn a dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Einion a Naomi, a Theo a Luned wrth iddynt ddyweddïo dros yr haf.

Llongyfarchiadau mawr i holl blant yr eglwys ar eu canlyniadau yn yr arholiadau TGAU a Lefel A eleni. Da iawn chi i gyd!

Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Fflur Bowen ar ennill gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg ym mhrifysgol Aberystwyth. Bwriad Fflur yw aros yn Aber i wneud gwaith Cristnogol ymhlith y myfyrwyr Cymraeg, o dan nawdd Cymdeithas Gristnogol Prifysgolion a Cholegau. Dymunwn bob bendith iddi yn y gwaith.

**Yr Haf**

Fel arfer bu tipyn o fynd a dod yn ein plith dros wythnosau'r haf. Bu llawer o'n plith yn mynychu gwersyll neu gynhadledd a rhai yn ymweld â'r Eisteddfod yn Wrecsam. Bu Gwydion a Catrin Lewis, gyda help eraill, yn arwain gwaith efengylu'r Mudiad Efengylaidd ar y maes. Cawsant lawer o sgyrsiau calonogol wrth iddynt dystio am ras Duw yn Iesu Grist.

Yn ystod Suliau mis Awst pregethodd Emyr gyfres fer ar y gair 'Sanctaidd'.Yn y boreau soniodd am sancteiddrwydd Duw ac yn y nos atgoffwyd ni bod angen i ninnau hefyd fod yn sanctaidd, gan gofio mai trwy Iesu Grist yn unig y mae hyn yn bosib.

**Y Tymor Newydd**

Edrychwn ymlaen at weld holl weithgareddau'r eglwys yn ailddechrau.

**Amser Paned**

Bydd Amser Paned yn ailgychwyn fore Gwener 5 Medi. Croeso cynnes i bawb ymuno am baned a sgwrs rhwng 10 y bore a hanner dydd.

**Bore Siarad Cymraeg**

Sadwrn,13 Medi yn Hyb Rhiwbina (CF146EH) am 10.30am. Dewch i wrando ar Lynne Davies yn sgwrsio am gerdd o'i dewis.

## BETHEL, PENARTH

Braf oedd clywed bod Eirlys wedi dychwelyd i'w chartref wedi cyfnod hir yn yr ysbyty. Mae trefniadau gofal yn ei chynnal yn ddedwydd.

Llongyfarchiadau gwresog i Llinos Haf ar orffen ei chwrs yn Academi Breninol Llundain gyda chlod uchel iawn; dyfarnwyd iddi radd MA mewn Perfformiad (Canu).

Mae Pat dros ben ei digon gyda hanes ei thair wyres. Dros yr haf bu Hana Lili yn brysur, gan iddi ennill contract gyda chwmni recordio yn America, yn cyfansoddi caneuon a fideos cyfatebol, hyn oll gyda golwg ar berfformio'n gyhoeddus yn yr hydref. Wedi graddio ym Mryste bu Beca'n gweithio i gwmni o gyfreithwyr yn Llundain ac mae wedi cael estyniad i'w swydd. Yn dilyn cyfweliad gan ei chyd-ddisgyblion etholwyd Alys yn Brif Ferch Ysgol Uwchradd Bro Morgannwg.

Bodlon iawn oedd ein gweinidog Kevin ar Awst 1af wrth weinyddu ym mhriodas ei ferch Mair â Rhys. Cynhaliwyd y briodas yn yr awyr agored ger Eglwys y Grog, sef Eglwys Mwnt ar arfodir Ceredigion. Gweler un llu o nifer fawr.

Un o fanteision absenoldeb oedfaon mis Awst yw'r cyfle i fynychu oedfaon capeli eraill. Felly y bu ar Awst 24 yn Ebeneser Caerdydd. Cafwyd anerchiad ysgytwol gan Dr Rhiannon Lloyd yn cyfeirio at ei phrofiad helaeth o arwain grwpiau cymod mewn sawl gwlad, yn nodedig Rwanda. Cafwyd goleuni newydd ar y testun Maddeuant.

Bu Gorffennaf 27 yn Sul nodedig ym Methel pan ddangoswyd ffilm o'r Sul yn 2004 pan ddychwelodd y gynulleidfa i Fethel ar ei newydd wedd ar yr hen safle yn dilyn cyfnod o absenoldeb oherwydd y rheidrwydd i ddymchwel yr hen adeilad. Er yn achlysur hyfryd roedd teimladau cymysg wrth wylio'r ffilm. Chwithig felly oedd darllen sylwadau mewn ysgrif yn rhifyn Gorffennaf y cylchgrawn *Y Traethodydd*, ysgrif deyrnged i'r arlunydd Ivor Davies yn 90 oed. Magwyd ef ym Methel pan oedd ei fam yn organyddes. Mae'n debyg ei fod wedi creu llun o 'chwalu adeilad Bethel' ac mewn ysgrif Saesneg ganddo mae'n cyfeirio at '*the philistine event*'. Wir!



## SALEM, TREGANNA

**Swper yr Haf**



Diolch i bawb fu'n trefnu'r Swper. Cafwyd gwledd o adloniant gan Gôr Merched Plastaf, Beca Derrick, Nel Williams ac Erin Fflur Jardine, gydag Efan Williams yn arwain. Cafwyd lluniaeth ysgafn ynghyd â chwmnïaeth gwerth chweil, a braf oedd cwrdd, rhannu cyfeillgarwch, ac ymlacio ar ddiwedd y tymor.

**Da iawn a Llongyfarchiadau**

Da iawn bawb fu'n cymryd rhan ac yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Llongyfarchiadau, hefyd, i Ferched Plastaf a ddaeth yn ail yn eu categori yn Eisteddfod Llangollen.

**Dymuniadau Gorau**

Dymuniadau gorau i ieuenctid Salem fu'n sefyll arholiadau a phob lwc ar eich camau nesaf, boed ym myd addysg, gwaith neu ba bynnag lwybr rydych am ei ddilyn. Dymuniadau gorau hefyd i'r plant sy'n symud i ysgol uwchradd eleni. A chofiwch fod croeso i chi a'ch ffrindiau yng Nghlwb y Bobl Ifanc.

**Medal Gee**

Llongyfarchiadau i Dai a Gill James ar ennill Medal Gee. Maent yn weithgar ers blynyddoedd gyda gwaith y capel i'r plant a'r ieuenctid - y Clwb Brecwast, Ysgol Sul, Clwb y Bobl Ifanc, a llawer mwy. Edrychwn ymlaen at weld y medalau'n cael eu cyflwyno.

**Gweithgareddau eraill**

Clwb Brecwast i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin - Bore Mercher 10 Medi, 24 Medi a 8 Hydref rhwng 9.45 a 11.15

Clwb Coffi – Bore Gwener 12 Medi a 10 Hydref rhwng 11.00 a 12.00. Croeso i bawb ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

Clwb Llyfrau - Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 9 Medi am 7.30. Y llyfr dan sylw yw *When the Cranes Fly South* gan Lisa Ridzén

Clwb y Bobl Ifanc - Cofiwch fod croeso i bob person ifanc oedran uwchradd ddod i Glwb y Bobl Ifanc. Cynhelir cyfarfod cynta'r flwyddyn academaidd hon nos Wener 26 Medi yn y festri.

Os hoffech ragor o fanylion, dilynwch ni ar Facebook, neu ewch i wefan Salem: Capelsalem.org.

## YR EGLWYS YNG NGHYMRU



*Y Parchg Alison Dummer yn yng Nghapel Mair, Eglwys Gadeiriol, Llandaf*

Yr Eglwys Gadeiriol, Llandaf, Caerdydd: Gwasanaeth y Cymun Bendigaid bob bore Iau am 9.30 o'r gloch. Coffi/Te a chlonc i ddilyn ym mhentref Llandaf.

Eglwys Sant Luc, Parc Cimdda / Victoria, Treganna, Caerdydd: Gwasanaeth y Cymun Bendigaid, 14/09/2025 am 4 o'r gloch. Coffi/Te a chlonc i ddilyn.

Eglwys Santes Catherine, Pontcanna, Caerdydd (ger Siop Caban): Gwasanaeth y Cymun Bendigaid, 28/09/2025 am 4 o'r gloch. Coffi/Te a chlonc i ddilyn.

Cynhaliwyd noson o leisiau Cymreig, yn cynnwys sain godidog Côr CF1 a'r soprano rymus Jessica Robinson, yn ystod Gŵyl Llandaf. Canu bendigedig!

Rydym mor ffodus i gael gwasanaeth y Parchedigion canlynol i gynnal ein gwasanaethau wythnosol - Alison Dummer, Andrew Sully, Siôn Brynach, Rhys Jenkins a Dyfrig Lloyd.

Bendith a thangnefedd.

## EBENESER

**Elusen 2024–25 a 2025-2026**

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau hwyliog er mwyn codi arian tuag at Hosbis y Ddinas a Marie Curie, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o Medi i Awst. O Fyfyrdodau Malcolm, i greu torchau Nadolig, o werthu marmalêd a phicls i noson gyri, o noson sgityls, i wledd yn Y Dosbarth. Codwyd dros £4,000 tuag at yr achoson teilwng hyn, sy'n gwneud cymaint o waith gwych o fewn ein cymuned. Dewiswyd Y Samariaid fel elusen Ebeneser ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gwnaed casgliad yn yr oedfa undebol 24ain o Awst o £304 er budd yr elusen. Cychwyn da i'r gronfa newydd. Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall o weithgareddau i godi cymaint â sydd bosib at y Samariaid.

**Llongyfarchiadau...**

...twymgalon i Malcolm a Jean Thomas ar ddathlu 65 mlynedd o briodas, sef priodas Saffir Las. Fe'u priodwyd yn Eglwys Annibynnol Bethesda, Tymbl ar 6ed o Awst, 1960.

...i Hywel a Milla Ling-Davies ar enedigaeth Mabli Jane ar 11eg o Awst. Llongyfarchiadau i mamgu a thadcu, sef Wyn a Nora Davies.

**Oedfa Undebol**

Braint oedd cael croesawu Dr Rhiannon Lloyd, Llandudno i'n plith ar 24ain o Awst a hefyd aelodau eglwysi Cymraeg canol Caerdydd. Testun y bore oedd 'Maddeuant' a goleuni yn nhywyllwch ein byd ni, ac yn y pnawn soniodd am ei gyrfa a'r hyn a welodd dros y blynyddoedd rhwng llwythau a fu'n elynion a'r gwaith a wnaed arweiniodd at gymod. Diolch am y negeseuon cryf a heriol.

**Oedfa Gomisiwn...**

..Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Elinor Wyn Reynolds nos Fercher 24 Medi am 7.00pm yng nghapel y Priordy, Caerfyrddin. Mae croeso cynnes iawn i bawb. Dewch i ddymuno'n dda ac i fwynhau cwmnïaeth. Bydd lluniaeth i ddilyn yn y festri. Caiff yr oedfa ei ffrydio'n fyw ar wefan annibynwyr.cymru

## TABERNACL, YR AIS

Bu'r côr yn rhan bwysig o fywyd yr eglwys erioed, ac erbyn heddiw, er yn llai o ran nifer, deil i gyfrannu at yr addoli. Shirley Ann James yw'r arweinydd a Dafydd Huw y cyfeilydd. Ganol Mehefin canodd y côr drefniant eneiniedig Euros Rhys Eavns o *Yr Arglwydd yw fy Mugail* yng Nghynhadledd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru yn Castle Street, Llundain, pan urddwyd cyn aelod o'r Tabernacl, Rob Nicholls, yn Llywydd. Ein Gweinidog fydd y Llywydd nesaf.

Ddechrau'r un wythnos, bore Sul Mehefin 15, neilltuwyd rhan o'r gwasanaeth i ddiolch i Delun Callow am ei chyfraniad fel diacon am bron i ddeugain mlynedd, wrth iddi ymddeol o'r ddiaconiaeth. Cyflwynwyd cerdd iddi o waith Zorah Evans, a hynny mewn llawysgrifen gywrain gan Eleri Messenger, un o blant yr Ysgol Sul yn ystod y 1990au.

**Delun**

Yn aelod brwd o'r Tab ers amser hir;
Brenhines falch o'i theulu hynod iawn;
Ei gwreiddiau'n ddwfn ym mhethau gorau'r tir –
Ar bob achlysur ceir ymroddiad llawn.
Blynyddoedd o wasanaeth roes yn wir;
Mewn pwyllgor diaconiaid, geiriau call;
Angerddol a brwdfrydig dros y gwir,
A charu pawb a phopeth yn ddi-ball.
Bob amser, parod yw i roi help llaw.
Un hynod gymwynasgar ydyw hon –
Yn gynnes braf, fel heulwen ar ôl glaw;
Yn gyson iddi'n gefn, ei chymar John.
Cyfarchion cynnes gennym ni i gyd,
A diolch iti, Delun – gwyn dy fyd!

Achlysur arall i ddathlu ymddeol Delun oedd swper y diaconiaid. Is-gadeirydd newydd y ddiaconiaeth, Llinos Metcalf, draddododd y deyrnged, a disgrifio ei chyfraniad i ddefosiwn cyfarfodydd y chwiorydd, y pwyllgor bugeilio o dan ei harweiniad a'i chadeiryddiaeth, a hithau'n cadw cysylltiad personol a chyson gydag aelodau oedd yn ymbellhau o'r eglwys. Gweithio'n dawel yng ngwaith y nef – dyna Delun. Cewch hanes anrhydeddau, llwyddiannau a dathlu pellach yn rhifyn Hydref.

# Edrych ymlaen i'r Dyfodol

Heb os, chwaraeodd ein papurau bro rôl bwysig wrth gefnogi'r Gymraeg fel iaith fyw yn ein cymunedau yn ystod y degawdau diwethaf. Bu'n fodd o ddod â'r cymunedau hynny at ei gilydd gan ddathlu eu hunaniaeth, eu hanesion a'u llwyddiannau.

Er eu llwyddiant, y mae'n ofid i bawb sy'n ymwneud â phapurau bro weld bod nifer eu darllenwyr wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwnnw.

Fel person ifanc a fu ynghlwm â'r *Dinesydd* ers cwta flwyddyn erbyn hyn, rwy'n hyderus fod dyfodol i'n papurau bro - tra bod y papurau bro eu hunain yn barod i newid ac addasu i anghenion yr oes.

Mae'r ffordd y mae cymdeithas yn rhannu newyddion wedi newid yn syfrdanol yn ystod ddau ddegawd cyntaf y ganrif hon. Y mae'r cyfan yn ddigidol erbyn hyn. Y cyfryngau cymdeithasol sy'n mynnu ein sylw i gyd - ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol. Y gamp i'n papurau bro - a'r cyfle euraid iddynt ddatblygu ac esblygu dybiwn i - fydd canolbwyntio ar y lleol gan sicrhau bod eu cynnwys yn newydd ac yn osgoi ailadrodd yr hyn sydd eisoes ar y wê.

Bydd angen i'n papurau bro fod yn llawer mwy creadigol yn y dyfodol - braf yw gweld Bro 360 yn datblygu mewn ardaloedd ar draws Cymru a bod *Y Dinesydd* yn enghraifft glodwiw o bapur bro sydd eisoes yn rhoi sylw dyledus i'w wedd ddigidol.

Yn yr un modd, mae angen denu rhagor o'n pobl ifanc i gyfrannu at eu papur bro lleol. Unwaith eto braf yw gweld *Y Dinesydd* - trwy ei bartneriaeth â Phrifysgol Caerdydd - yn arwain y ffordd ac yn cynnig llais i'n pobl ifanc. Wedi'r cyfan, y genhedlaeth hon fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o gynnal a sicrhau dyfodol ein papurau bro - gan gynnwys eu fersiynau digidol - yn y dyfodol.

*Annell Dyfri*

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

## Ewro 25 yn hwb enfawr i bêl-droed merched yng Nghymru

Er y byddai profi llwyddiant ar y cae yn amlwg wedi bod yn braf yn y Swisdir, yn ddi-os roedd cyrraedd prif gystadleuaeth pêl-droed merched am y tro cyntaf yn gamp ryfeddol i dîm Cymru.

Roedd Cymru mewn grŵp rhyfeddol o anodd yn erbyn yr Iseldiroedd, Ffrainc a Lloegr a dim ond y cefnogwyr mwyaf optimistaidd oedd yn disgwyl i Gymru lwyddo i guro rhai o brif dimau pêl-droed merched y byd.

Gellir dadlau fod y perfformiadau wedi bod yn siomedig – yn enwedig yn y gêm gyntaf yn erbyn yr Iseldiroedd pan roedd yr achlysur efallai wedi effeithio ar berfformiadau rhai o'r chwaraewyr. Bu gwelliant yn erbyn Ffrainc gyda Jess Fishlock yn creu hanes drwy sgorio gôl gyntaf Cymru mewn rowndiau terfynol. Yr oedd yn briodol iawn mai Fishlock a sgoriodd y gôl hon – yn ddi-os chwaraewraig orau Cymru erioed ar ôl ennill 165 o gapiau a sgorio 48 gôl. Er colli'n drwm o 6 -1 yn erbyn Lloegr yr oedd gôl Hannah Cain yn hwb i gefnogwyr Cymru.

Er y methiant i sicrhau pwynt yn y gystadleuaeth, nid oes amheuaeth bod cyrraedd y rowndiau terfynol wedi bod yn hwb enfawr i bêl-droed merched yng Nghymru. Ers curo Iwerddon fis Rhagfyr diwethaf yn Nulyn i gyrraedd y Swisdir, cynyddodd y cyffro ledled Cymru. Digwyddiad symbolaidd iawn gan y rheolwr Rhian WIkinson oedd cyhoeddi'r garfan ar gopa'r Wyddfa ganol Mehefin.

Ar benwythnos cyntaf mis Gorffennaf yr oedd miloedd o Gymru wedi gwneud y daith i Lucerne yn y Swisdir i gefnogi tîm y merched. Yr oedd awyrgylch gwych yno  - dinas hyfryd tua awr o daith ar y trên o Zurich. Yn wir nododd sawl un ei bod fel 'Steddfod yno gyda chymaint o wynebau cyfarwydd yn y ddinas,



yn y *fan zone* oedd gerllaw'r orsaf ac yn y stadiwm. Roedd y *fan zone* yn cynnwys nifer o berfformiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwych oedd gweld gymaint o deuluoedd ifanc yno. Yr unig her i'r Cymry oedd gorfod ymdopi gyda'r gwres tanbaid a gorfod talu crocbris am bopeth – ond roedd hynny i'w ddisgwyl yn y Swisdir!

Y gobaith nawr yw y bydd tîm merched Cymru yn adeiladu ar y llwyddiant o gyrraedd prif gystadleuaeth pêl-droed merched am y tro cyntaf. Ni fydd yn hawdd ond y nod realistig nawr yw cyrraedd Cwpan y Byd 2027 ym Mrasil – byddai hynny'n wych i'r tîm a'r cefnogwyr!

Yn ddi-os bydd cyrraedd y Swisdir hefyd yn ysbrydoli nifer o ferched i chwarae pêl-droed am y tro cyntaf. Hyd yn oed cyn y gystadleuaeth roedd ystadegau Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn dangos 52% o gynnydd yn nifer y merched sydd wedi cofrestru yn y bedair mlynedd ddiwethaf i chwarae pêl-droed o 12,742 yn 2021/22 i 19,345 yn 2024/25.Y disgwyl yw bydd y cynnydd hwn yn parhau ac yn wir yn cynyddu'n sylweddol yn dilyn yr haf hwn.

Gobeithio y daw torf deilwng ar bnawn Sadwrn 25 Hydref i Stadiwm Dinas Caerdydd i weld y tîm yn chwarae yn erbyn Awstralia mewn gêm gyfeillgar.

## John Parry-Jones sy'n edrych ymlaen at dymor Clwb Rygbi Cymry Caerdydd

Gyda'r Hydref yn agosáu, mae tymor newydd i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd ar y gorwel, a ninne fel pwyllgor a chwaraewyr yn edrych ymlaen yn fawr at y tymor sydd i ddod.

Daeth tymor 2024-25 i ben gyda phob un o dimoedd y Clwb yn dathlu llwyddiant o ryw fath. Enillodd tîm cyntaf y dynion ddyrchafiad nôl i Adran 2 Dwyrain Canolig, i wynebu hen ffrindiau fel Pentyrch a Cardiff Harlequins, a chroesawu rhai gwrthwynebwyr newydd fel Rhiwbeina. Yn ogystal â sicrhau'r dyrchafiad, llwyddwyd i ennill Cwpan Malcolm Thomas ar ddiwedd y tymor gyda buddugoliaeth swmpus o 55-22 yn erbyn yr Old Illts ar gaeau Barri. Gyda'r rhan fwyaf o garfan y llynedd yn dal i fod o gwmpas, a gyda nifer o wynebau newydd wedi bod yn ymarfer dros yr haf, mae digon o reswm i fod yn optimistig am ein gobeithion ar gyfer y tymor.

Roedd y 67s, ail dîm y Clwb, wedi bod yn chwarae yn adran ddwyreiniol Cynhadledd URC, ymysg ail dimoedd rhai o glybiau cryfaf yr ardal fel Bedwas a  Beddau. Roedd hi'n arbennig gweld y tîm yn gallu dal eu tir yn erbyn rhai o'r timoedd yma, a braf oedd nodi i'r Clwb orffen yn drydydd wrth i'r tymor ddod i ben. Ry'n ni wedi dweud ers sbel mai cryfder y 67s sy'n gallu arwain at lwyddiant y tîm cyntaf, gyda'r chwaraewyr dan bwysau i berfformio, a chyda'r hyfforddwyr yn gallu gwneud y gorau o bob sesiwn ymarfer gyda chymaint o chwaraewyr da yn cystadlu am lefydd. Yn anffodus, mae'r Gynhadledd yn dod i ben eleni, felly bydd y 67s yn ôl yn cystadlu yn uwch gynghrair ardaloedd Caerdydd eto'r tymor nesaf.

Ac yn goron ar y cyfan, llwyddodd tîm merched y Clwb i ennill dyrchafiad o Brif Adran URC  i'r Uwch Adran sef i bob pwrpas, y lefel uchaf posib i'r tîm, sydd yn ganlyniad rhagorol i dîm sydd heb eto ddathlu penblwydd yn ddeg oed.

Felly mae popeth yn edrych yn addawol wrth i'r tymor agosáu, ond efallai mai'r cam mwyaf a mwyaf cyffrous yw'r bwriad i gynnal tîm ieuenctid cyntaf Clwb Rygbi. Mae'r Clwb yn dathlu ei benblwydd yn 60 yn 2027, ac o'r diwedd, y gobaith yw y bydd criw o fois ifanc lleol yn gwisgo lliwiau'r Clwb mewn gemau dan 17 am y tro cyntaf. Er bod y niferoedd ychydig yn fregus, mae criw bach o fechgyn brwd yn gobeithio dal ati drwy'r tymor i roi sail ar gyfer y tymhorau sydd i ddod.

Ar ran bawb, hoffwn ddiolch i'r rhai hynny a ffurfiodd Clwb Rygbi Iau sawl blwyddyn yn ôl, yn ogystal â phwyllgor a chefnogwyr yr adran Iau sydd wedi meithrin y plant hyn am dymhorau er mwyn inni gyrraedd y sefyllfa yr ydym ynddi heddiw. Hefyd, diolch mawr i'r pwyllgor anffurfiol sydd wedi cymryd yr awenau i sicrhau bod cyfleoedd y plant hyn yn gallu parhau'r tymor nesaf yn lliwiau'r Clwb. Pob lwc i chi fechgyn!

Felly bant â ni am dymor arall.

13/09/2025 CRCC 1af Vs Rhiwbeina (h) CRCC 67s Vs St Josephs (h) CRCC I'ctid Vs Llantwit Major (h) ko 12.00/12.30 i'w gadarnhau

14/09/2025 CRCC Merched Vs Gogledd Llandaf (h)

20/09/2025 CRCC 1af Vs Ffynnon Taf (a) CRCC 67s Vs Cardiff Met 3rds (a) CRCC I'ctid Vs Ff. Taf (a)

21/09/2025 CRCC Merched Vs Seven Sisters (a)


27/09/2025 CRCC 1af Vs Pentyrch (h) CRCC I'ctud Vs Pentyrch (h)

28/09/2025 CRCC Merched Vs Burry Port (a)

## "Stori sydd angen ei chlywed"

*Drama newydd Dynolwaith yn dod â stori bwerus dyn traws ifanc i'r llwyfan*

Yr Hydref hwn, mae'r Frân Wen a Theatr y Sherman yn uno unwaith eto i gyflwyno *Dynolwaith;* drama newydd sbon Gymraeg sy'n mynd â'r gynulleidfa i galon stori dyn ifanc.




Wedi'i hysgrifennu a'i pherfformio gan Leo Drayton, mae *Dynolwaith* yn ddarn newydd a phwerus o theatr: tyner, digyfaddawd, ac yn llawn dynoliaeth.

Wedi'i ysbrydoli gan brofiadau personol Drayton, mae ei ddrama gyntaf yn gwahodd cynulleidfaoedd i gamu i mewn i gymuned sy'n ymladd i gael eu clywed.

Wedi ei chyfarwyddo gan Gyfarwyddwr Artistig Frân Wen, Gethin Evans, gyda Kayley Roberts yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol, mae'r tîm creadigol cyffrous yn gyfrifol am ddod â'r cynhyrchiad yn fyw: y dylunydd Cara Evans, y dylunydd goleuo KJ, y cyfansoddwr Melfed Melys a'r dylunydd sain Sam Jones.

Dyma'r ail waith i'r cwmnïau ddod at ei gilydd yn dilyn eu drama boblogaidd Imrie (★★★★ The Stage) yn 2023, ac yn yr un modd mae'n cynnig llwyfan i leisiau anhysbys yn ein cymunedau.

Bydd *Dynolwaith* yn agor yn Theatr y Sherman ar 26 Medi, cyn teithio i Aberystwyth, Caernarfon, Bangor a'r Bala.

Wrth wraidd y stori, sydd wedi ei gosod yn 2015, mae Jac, dyn traws ifanc sy'n ysu i fyw y bywyd y mae'n gwybod ei fod i fod yn ei fyw.

Wrth iddo ddechrau ei drawsnewidiad, mae tensiynau'n cynyddu, mae perthnasoedd dan straen ac mae'r gefnogaeth y mae'n dibynnu arni'n dechrau teimlo'n fwy bregus nag erioed. Pan fydd gwrthodiad terfynol yn gwthio Jac i'w bwynt eithaf, mae'n taflu ei hun i anghofrwydd, gan brofi terfynau ei gorff a'i feddwl. A fydd y rhai y mae'n eu caru yn sefyll wrth ei ochr pan fydd hi bwysicaf?

Gyda chapsiynau yn Saesneg a Chymraeg ym mhob perfformiad, mae *Dynolwaith* yn stori bersonol ddofn, ddiffuant yn y Gymraeg am hunanddarganfyddiad, gwydnwch a thrawsnewidiad un dyn traws.

Ochr yn ochr â'r cynhyrchiad, bydd Frân Wen a Theatr y Sherman yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y gymuned i ddathlu bywydau traws ehangach gyda chyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu, gan gynnig llwyfan cynnes a chreadigol ar gyfer rhannu profiadau a straeon.

Dywedodd Gethin Evans: "Mae gan y gymuned draws gyfoeth diderfyn o straeon i'w rhannu, pob un yn olrhain taith unigryw, drawsnewidiol un person. Mae stori dyner Leo ei hun yn eithriadol, a bydd yn cael ei chyfarch â'r empathi a'r creadigrwydd y mae Frân Wen yn ymdrechu i'w ddwyn i'w holl waith.

"Ar ôl gweithio'n agos gyda Leo dros y ddwy flynedd ddiwethaf, allwn ni ddim aros i rannu geiriau Leo ac agor lle i eraill rannu eu rhai nhw. Rydym wrth ein bodd yn cydweithio â Theatr y Sherman unwaith eto, gan ddod â drama gyntaf wych Leo i gynulleidfaoedd yn y brifddinas cyn cyrraedd cymunedau ledled Cymru."

Dywedodd Julia Barry, Prif Weithredwr Theatr y Sherman: "Nod Theatr y Sherman yw dychmygu byd sydd wedi'i wneud yn fwy cyfartal, yn fwy tosturiol, yn fwy unedig gan bŵer theatr. Mae'r cynhyrchiad hwn yn enghraifft berffaith o sut rydym yn rhoi hynny ar waith; rhannu un stori benodol yn ddilys, ynghyd â chyfres o ddigwyddiadau cynnes a diogel i eraill rannu eu profiadau unigryw eu hunain. Mae hwn yn gydweithrediad arbennig iawn yn wir."

Bydd y ddrama i'w gweld yn Theatr y Sherman, Caerdydd rhwng 26 Medi - 4 Hydref 2025.

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Gyda'r Llywodraeth yn parhau i fod o dan bwysau ariannol, mae nifer yn darogan y bydd angen i Rachel Reeves godi trethi yn y Gyllideb nesaf, tua diwedd mis Hydref. Er nad oes unrhyw newidiadau wedi'u cadarnhau, mae'r newidiadau posib yn cynnwys:

1. ***ISAs:*** gostyngiad yn y lwfans ISA blynyddol ar gyfer cyfrifon banc (y lwfans blynyddol presennol yw £20,000).
2. ***Treth ar eiddo:*** cynyddu cyfraddau treth ar eiddo, yn benodol o werthiant tai.
3. ***Cyfraniadau pensiwn:*** cyfyngiadau posibl ar ryddhad treth cyfradd uwch ar gyfraniadau pensiwn. Mae yna sïon hefyd am newidiadau posib i gynlluniau aberthu cyflog (*'salary sacrifice'*) sy'n cael eu defnyddio i arbed treth, megis cynlluniau pensiwn y gweithle a cheir trydan trwy gwmni.
4. ***Tynnu arian o bensiwn:*** mae'r wasg ariannol wedi bod yn adrodd ers tro am y posiblrwydd o leihau'r uchafswm o faint o arian di-dreth y gellir ei gymryd o'ch pensiwn.
5. ***Treth etifeddiaeth:*** newidiadau i ganllawiau y *'rheol 7 mlynedd'* ar gyfer rhoi asedau ac uchafswm posib ar werth asedau gall unigolyn ei roi yn ystod eu hoes. Yn ddiweddar, cyn i unrhyw newidiadau posibl gael eu cyhoeddi, mae'r *Financial Times* wedi adrodd bod mwy o unigolion yn trosglwyddo a rhoi asedau i "gychwyn y cloc 7 mlynedd", gan boeni y gallai newidiadau yn y dyfodol newid y rheolau er gwaeth.

Er nad oes unrhyw un o'r newidiadau hyn wedi'u cyhoeddi yn swyddogol, y cyngor cyffredinol yw os ydych chi'n bwriadu gwneud unrhyw benderfyniadau ariannol mawr, efallai yr hoffech chi ystyried eu gwneud o dan y rheolau a'r cyfraddau treth presennol.

Cysylltwch â ni os hoffech chi drafod unrhyw fater. Mae Aled wedi gweld cynnydd diweddar mewn ymholiadau treth ar eiddo o werthiant tai, tra bod Huw wedi sylwi ar gynnydd amlwg mewn ymholiadau treth etifeddiaeth.

***<u>Cwestiynau Huw ac Aled</u>***

***C:*** Dwi'n bensiynwr a dwi'n deall bydd taliadau tanwydd gaeaf yn cael eu cymeradwyo i bob pensiynwr y gaeaf hwn. Dwi hefyd wedi clywed, os ydych chi'n ennill mwy na £35,000, y bydd angen i chi ad-dalu hyn i'r Llywodraeth. Sut fydd hyn i gyd yn gweithio?

***A:*** Mae llawer o ddryswch wedi bod ynghylch sut bydd y broses newydd ar gyfer taliadau tanwydd gaeaf yn gweithio.

Bydd taliadau tanwydd gaeaf bellach yn cael eu prosesu i bob pensiynwr yng Nghymru a Lloegr y gaeaf hwn (mae rheolau gwahanol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Os yw cyfanswm incwm pensiynwr yn uwch na £35,000, bydd y Swyddfa Dreth yn adennill y taliad tanwydd gaeaf naill ai trwy'ch côd treth ar gyfer 2026/2027 (os ydych yn derbyn pensiwn gweithle neu breifat sy'n cael ei drethu *'at source'*), neu, os ydych yn cwblhau ffurflenni treth hunanasesiad blynyddol bydd y taliad tanwydd gaeaf yn cael ei ad-dalu i'r Swyddfa Dreth trwy'ch ffurflen dreth, gyda'r swm yn cael ei ychwanegu at eich bil treth terfynol.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy:*
*Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

## 'Patagonia – taith mewn paent'.


**Sgwrs gan yr artist Meirion Jones**

Mae Cangen De Cymru o Gymdeithas Cymru-Ariannin wedi trefnu i gael sgwrs gan yr artist enwog Meirion Jones yng Nhapel Bethel, Maes y Deri, Rhiwbeina CF14 6JJ nos Iau Medi 11eg. Bydd paned am 7.00pm a sgwrs Meirion 'Patagonia – taith mewn paent' yn dilyn am 7.30pm

Yn 2015 cafodd Meirion wahoddiad gan Isaias ac Eluned Grandis i dreulio mis ym Mhatagonia yn portreadu'r trigolion ac i baentio'r tirlun. Ar ôl treulio pythefnos yn y Dyffryn a phythefnos yn Yr Andes gyda'i wraig Joanna, sy hefyd yn artist, dychwelodd i Aberteifi. Yno trodd y didoli yn llyfr yn 2024, a hynny ar ôl i tua 100 o luniau fod ar daith ledled Cymru mewn sawl Oriel.

Bydd Meirion yn dangos delweddau o'r llyfr lliwgar yma ar sgrîn ar y noson.

Cofiwch roi'r digwyddiad yma yn eich dyddiadur gan fod croeso i bawb i ddigwyddiad fydd yn werth ei fynychu.



# Y DIGWYDDIADUR

## Medi

**Mawrth, 9 Medi**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Wyn Jones ar y testun 'Sgamiau', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press: (07761-358755 neu eluned@press0.plus.com).

**Mercher, 10 Medi**
Merched y Wawr Bro Radur. Noson o adloniant yng nghwmni Mei Gwynedd a'r Gerddorfa Ukulele, yn Ysgoldy Eglwys Crist, Radur am 7.30pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Iau, 11 Medi**
Cymdeithas Cymru-Ariannin, Cangen y De-Ddwyrain. Sgwrs gan yr artist Meirion Jones am ei gyfrol drawiadol, *Patagonia: Taith Mewn Paent*. Yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Paned am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 12 Medi**
Menter Caerdydd. Bore i ddysgwyr yn Sain Ffagan, yn cynnwys cwis yn y Vulcan, rhwng 10.00am a 1.30pm. Yn rhad ac am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Llun, 15 Medi**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Bydd Eleri Twynog Davies yn siarad am ei chwmni drama 'Mewn Cymeriad' yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Gwyneth Stephens (penrhiwalltycnap@gmail.com). Croeso i aelodau hen a newydd i gyfarfod cyntaf y tymor newydd.

**Iau, 18 Medi**
Menter Caerdydd. Taith dywys i ddysgwyr o amgylch orielau Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd rhwng 10.00am ac 11.00am (Mynediad a Sylfaen) a rhwng 11.30am a 12.30pm (Canolradd ac Uwch). Yn rhad ac am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener, 19 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Adfeilion: Cerddi'r Goron 2025' – cyflwyniad gan y Prifardd Owain Rhys, yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.15pm. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk). Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Sadwrn, 20 Medi**
Dathlu pen-blwydd Cylch Meithrin Rhiwbeina yn 60 oed a dathlu hefyd ysbrydoliaeth gychwynnol Gwilym E. Roberts, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, rhwng 10.30am ac 1.00pm. Bydd dadorchuddio plac, coffi a chacen, a gemau ac adloniant i'r plant. Mynediad am ddim. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 22 Medi**
Menter Caerdydd. 'Sgwrs y Mis' gan Dr Sara Elin Roberts ar y testun 'Cyd-fyw yng Nghymru'r Oesoedd Canol: Cyfraith Hywel Dda' trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener, 26 Medi**
Cynhelir Bore Coffi Macmillan yng nghapel y Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DD, rhwng 10.00am a hanner dydd. Mae'r Eglwys Efengylaidd Gymraeg hefyd yn cynnal bore coffi anffurfiol yn festri'r Tabernacl bob bore dydd Gwener rhwng 10.00am a hanner dydd yn ystod tymhorau'r ysgolion. Croeso cynnes i bawb ddod i'r Bore Coffi Macmillan ar 26 Medi a hefyd i'r boreau coffi wythnosol.

**Gwener, 26 Medi**
Dysgu Cymraeg Bro Morgannwg a Menter Iaith Bro Morgannwg yn cyflwyno 'Laff a Chân', noson yng nghwmni Alun Saunders ac Angharad Rhiannon, yn 96 Degrees, Y Bont-faen, CF71 7EE, am 7.30pm. Addas i bobl dros 18 ac yn arbennig i siaradwyr newydd. Am ddim. Tocynnau: www.menterbromorgannwg.cymru

**Gwener, 26 Medi – Sadwrn, 4 Hydref**
Theatr Sherman a Frân Wen yn cyflwyno 'Dynolwaith' gan Leo Drayton, yn Theatr Sherman. Addas i bobl dros 16. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/dynolwaith/?lang=cy neu ffoniwch 029-2064-6900.

**Llun, 29 Medi**
Menter Caerdydd. Mewn Tiwn yng nghwmni'r gitarydd gwerin Rhys Morris, yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbina, am 11.30am. Am ddim, ond gwahoddir cyfraniadau wrth y drws. Nid oes angen tocyn. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

## Hydref

**Mercher, 1 Hydref**
Merched y Wawr Bro Radur. Noson yng nghwmni Anna Reich 'Cadw'n Iach a Heini', yn Ysgoldy Eglwys Crist, Radur am 7.30pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Gwener, 3 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd. Cynhelir cyfarfod agoriadol y tymor yn festri Salem, Treganna, am 7.30pm. Wedi arwisgo'r Llywydd newydd, yr Athro Bill Jones, traddodir sgwrs ganddo ar y testun 'Madame Hannah Hughes Thomas (1865–1954): cerddor, athro cerdd ac arweinydd Côr Merched Brenhinol Cymru'. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £15; y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £5.00 (ond yn rhad ac am ddim i aelodau). I dderbyn gwybodaeth ynghylch sut i dalu, anfonwch at cymrodorioncaerdydd@gmail.com. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 4 Hydref**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.00am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com

**Sadwrn, 11 Hydref**
Perfformiadau gan Adwaith yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru, am 7.30 pm ('O Dan yr Haenau') ac am 9.30pm ('Solas'). Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2025/adwaith

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ (029-2062-8754; JamesEW@caerdydd.ac.uk).**

# Aduniad

Ym mis Medi1956 daethpwyd â 21 o blant at ei gilydd, i ffurfio'r dosbarth Cymraeg cyntaf erioed (W1) yn Ysgol Ramadeg Alun yr Wyddgrug, a hynny bedair mlynedd cyn agor Ysgol Uwchradd Gymraeg, Maes Garmon yn y dre. Ron i'n un o'r disgyblion hyn ac wedi treulio chwe mlynedd yn ysgol gynradd Caerwys: tref hynafol a man geni yr Eisteddfod. Cymraeg oedd iaith fy nheulu, ac iaith y capel, ond Saesneg yn unig a gafwyd yn yr ysgol. Ar wahan i'r Beibl, ni ddarllenais unrhyw Gymraeg. Yn Saesneg y byddwn yn ysgrifennu ac felly roedd llunio brawddeg Gymraeg ar bapur yn amhosibl. Dychmygwch yr ysgytwad ges i ar y diwrnod cyntaf hwnnw o ddeall bod disgwyl i mi ysgrifennu yn Gymraeg!

Roedd rhywun arall yn bryderus – y ferch ifanc a benodwyd i fod yn athrawes dosbarth i ni - Elisabeth (Williams – Jones) Gilpin, - sydd yn awr yn un o drigolion y brifddinas. Wrth gwrs, roeddem yn hollol anwybodus, ar y pryd, nad oedd gwerslyfrau ar gael yn Gymraeg. Rhaid oedd iddi gyfieithu pob dim o'r Saesneg i ddysgu Hanes ac Ysgrythur i ni. Ymhen amser, gydag amynedd yr athrawes, cefais y gallu a'r hunan-hyder i fynegi fy hun yn Gymraeg.

Tefnwyd aduniad yn 2016, 60 o flynyddoedd ar ôl i ni gyfarfod ym 1956. Daeth 14 o'r cyn-ddisgyblion at ein gilydd yn yr Wyddgrug i hel atgofion, ac i groesawu Elisabeth Gilpin, a ddaeth yn unswydd o Gaerdydd i'n cyfarfod yno.

Eleni, gyda'r disgyblion yn bedwar ugain oed, ac wedi clywed bod Elisabeth Gilpin, (yn awr yn 92 oed), am deithio i Wrecsam ym mis Gorffennaf, penderfynwyd trefnu aduniad arall. Y tro hwn, 69 o flynyddoedd ar ôl i ni oll gyfarfod ym 1956, daeth wyth ohonom ynghyd, pob un yn ddiolchgar am yr addysg Gymraeg a gawsom dan ei gofal. Yn anffodus fe fethodd Gwilym Huws, un arall o drigolion Caerdydd bellach ymuno â ni.

*Eluned Lawrence*



*Uchod: W1 yn 1956. Mae Eluned Lawrence yn eistedd ar y dde o'r athrawes*
*Isod: wyth o'r criw a'u hathrawes yn 2025.*



---

Cafwyd noson wych yn gig Clwb Canna fis Gorffennaf, gyda dychweliad Candelas i'r Clwb, ac roedd y lle'n llawn.

Yn agor y digwyddiad, i gefnogi Candelas, roedd Anhunedd, sef band ifanc newydd o ardal Caerdydd, a'r cerddorion yn fyfyrwyr yn Ysgol Plasmawr. Mae'r band yn griw talentog iawn, gyda sain newydd, ffres, a'r gallu i sgwennu amrywiaeth o ganeuon unigryw sy'n dal cynulleidfa. Roedd yn wych cael y cyfle i'w clywed, gan fod dyfodol disglair iawn o'u blaenau. Roedd y gynulleidfa'n wethfawrogol iawn, ac wrth eu bodd gyda'r amrywiaeth o ganeuon.






Yna, roedd pawb wedi gwirioni gyda Candelas. Unwaith eto, cerddorion ac artistiaid talentog iawn. Cafwyd cymysgedd arbennig o'r hen a'r newydd. Roedd mor braf clywed pawb yn morio canu wrth ymuno â'r band, a diolch i Carwyn Williams am ymuno ar y drymiau – un o ddrymwyr gorau Cymru ar hyn o bryd. Roedd yn hyfryd gweld y band yn ôl yn y Clwb am y tro cyntaf ers misoedd, ac rydym yn edrych ymlaen at eu gweld eto yn y dyfodol. Mae'r gynulleidfa wastad yn mwynhau nosweithiau Clwb Canna, gyda bandiau cyfarwydd, adnabyddus, yn cael eu cefnogi gan fandiau lleol, ifanc.

Cynhelir gigs nesaf Clwb Canna nos Wener 26 a nos Sadwrn 27 Medi gyda Bwncath, ac os nad ydych wedi prynu tocynnau eto, mae nhw, yn anffodus, wedi gwerthu allan. Mac fydd yn cefnogi ar y nos Wener, a Penbleth ar y nos Sadwrn. Gobeithio eich gweld chi i gyd yno.



## Rhif: 255



**Ar Draws**
6. Haid gwyllt a'r gôl o chwith yn ymddangos yn lân (7)
7. Rhaid dogni rywsut i gael eich gwala (5)
9. Rhywbeth i Megan roi ar ei llaw (5)
10. Lle organ yng ngolau'r lleuad (7)
12. Castell mawr ei hyd ar lethr yn Lloegr (11)
14. 'Crog glychau'r ----- -----
Fflur y main, ffiolau'r mêl' (EW) (7,4)
18. 'Cans o'th law y daw bob dydd
Ein lluniaeth a'n -----' (WDW) (7)
19. Garddiodd Lois ar yn ail a phlygu glin (5)
21. '----- y nawr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuenctid' (Pregethwr-WM) (5)
22. 'Croesaw Medi, fis fy serch,
Pan fo'r ----- ----- y llwyni' (EW) (5,2)

**I Lawr**
1. '----- a osodir ar fryn, ni ellir ei chuddio (Mathew – WM) (5)
2. Tynnwr lluniau o'r America mewn dryswch wedi colli un (6)
3. Ymchwydd dan do yn troi'n gân (3)
4. Gwasgu'r digyfrif yn smala (6)
5. Pwyllgor awyddus yn celu brwdfrydedd eithafol (7)
8. 'Gŵr -----, a chynefin â dolur' (Eseia – WM) (7)
11. '----- da, trugarha
Y sychedig rai dyfrha' (JT) (7)
13. Cofia'r pum deg math o aeron (7)
15. Eiddew igam-ogam yn cuddio rhywbeth Israelaidd (6)
16. Yr eofn heb ddechrau yn awchus (6)
17. Gwlad y cyhydnos (5)
20. Golwg anfodlon o bob cyfeiriad (3)

**Enillydd Croesair Rhif 253**
**Eleri Huws, Meisgyn, Pontyclun**

**Atebion Croesair Rhif 253**
**Ar Draws**
7. Llewyrch 8. Athrodi 10. Ofnadwy 11. Asgre 12. Iaith 13. Moron 17. Porthi 18. Thyle 22 Waled 23. Gwarchae 24. Wythawd 25 Malachi
**I Lawr**
1. Allforio 2. Gwendid 3. Bradu 4. Â'th dafod 5. Llosgi 6. Diben 9. Cyfoethogi 14. Coed yw'r 15. Cylchfan 16. Mehefin 19. Gwawr 20. Plethu 21. Dafad

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Hydref, 2025
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Bwrlwm yn y Fro

Draw yn y Fro, mae tîm Menter Iaith Bro Morgannwg, Aled, Gwen a Bethan, yn cynllunio rhaglen o weithgareddau amrywiol a chyffrous ar gyfer tymor yr hydref.

**Cwis Misol**
Yn dechrau nos Fawrth, 16 Medi, bydd cwisiau misol yn cael eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol ar draws y sir ar drydedd nos Fawrth y mis. Bob yn ail fis, bydd y cwis yn cael ei deilwra'n arbennig ar gyfer siaradwyr newydd ac yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Palmerston, Y Barri. Awydd cystadlu? Ewch ati i ffurf

**Gigs**
Bydd rhai o artistiaid amlycaf Cymru yn perfformio mewn gigs o dan faner Gigs Bach y Fro. Mae'r cydweithio hapus gyda Chanolfan Dysgu Cymunedol Palmerston hefyd yn dwyn ffrwyth wrth i ni gyd-gyflwyno gig acwstig gyda Mei Gwynedd nos Wener, 24 Hydref. Mae'r cyfan yn cael ei lansio yn 96 Degrees, Y Bont-faen gyda noson Laff a Chân yng nghwmni Alun Saunders ac Angharad Rhiannon ar nos Wener, 26 Medi. Mae'r adloniant yn addas ar gyfer y rhai dros 18+ ac mae croeso arbennig i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg.

**Cadwch y dyddiad:**
Cwrs ar Zoom yng nghwmni Bethan Mair: 'Ynof Mae Cymru'n Un: trafod rhai o gerddi TH Parry-Williams, Waldo, Gwenallt a Saunders Lewis' (3, 10, 17, 24 Tachwedd am 7.30yh).

Cadwch lygad ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth!
Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Instagram: @mentercaerdydd / @menterbromorgannwg
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

**Dechrau Tymor Newydd**

Ydych chi'n chwilio am sesiwn sgwrsio, dosbarth ffitrwydd neu her newydd ar gyfer tymor yr hydref? Dyma gip ar rai o'r gweithgareddau sydd ar y gweill gan Menter Caerdydd yn ystod mis Medi.

**Sgwrs y Mis**

Yr Athro Sara Elin Roberts fydd gwestai Sgwrs y Mis, nos Lun, 22 Medi ar Zoom. Testun ei sgwrs fydd 'Cyfraith Hywel, system gyfreithiol Cymru'r Oesoedd Canol'. Roedd hon yn system arbennig i Gymru, wedi ei chreu gan gyfreithwyr ar gyfer cyfreithwyr, a'r bwriad y tu ôl i'r gyfraith oedd sicrhau bod y gymdeithas yn gweithio yn esmwyth, a chadw perthynas rhwng pobl. Ceir felly lu o enghreifftiau o fywyd bob dydd ac ymwneud pobl â'i gilydd, a chawn olwg ar rai o'r golygfeydd hyn yn ystod y drafodaeth. Er ei bod yn adlewyrchu cyfnod sy'n bell yn ôl, mae Cyfraith Hywel yn dangos mai'r un yw pobl ar hyd yr oesoedd. (Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs)

**Siaradwyr Newydd**

Byddwn yn dathlu Wythnos Addysg Oedolion yng nghwmni Dysgu Cymraeg Caerdydd mewn dau ddigwyddiad mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru. Cynhelir bore i ddysgwyr yn Sain Ffagan, gan gynnwys cwis yn y Vulcan, ar fore Gwener, 12 Medi ac ymweliad â'r orielau celf yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar fore Iau, 18 Medi.

Bydd ein boreau coffi yn yr Hybiau yn ail-ddechrau wedi hoe dros yr haf gyda sesiynau bob yn ail ddydd Mawrth yn Llaneirwg, bob yn ail fore Iau yn Rhydypennau a bob yn ail fore Gwener yn Rhiwbeina. Bydd Gwilym Dafydd yn parhau â'i sesiynau wythnosol yn Hyb y Llyfrgell Ganolog bob prynhawn Iau. Mae croeso i ddysgwyr o bob lefel yn ogystal â siaradwyr rhugl. (Hyb Rhiwbeina, 5 + 19 Medi; Hyb Llaneirwg, 9 + 23 Medi; Hyb Rhydypennau, 11 + 25 Medi, 10.30yb)

Cofiwch hefyd am y Bore Coffi Misol ar Zoom fydd yn dechrau 'nôl ddydd Gwener, 26 Medi am 10.30.

**Dosbarthiadau Ffitrwydd**

**Ffitrwydd gyda Ffrindiau 75+ -** yn parhau bob yn ail fore Gwener - 5 Medi a 19 Medi. Croeso i aelodau newydd ond rhaid cofrestru o flaen llaw trwy Re-engage. Am ddim.

**Pilates** – bob nos Fawrth am 6.00yp yn Festri Salem o 9 Medi. 12 sesiwn am £90.

**Tai Chi** – bob dydd Llun am 3.00yp yn Hyb Rhydypennau o 15 Medi. Mae'r dosbarth am 2.00yp yn llawn. 13 sesiwn am £65.

**Ioga Beichiogrwydd** – bob nos Fawrth am 4.45yp yn Hyb Grangetown o 16 Medi. 5 sesiwn am £35.

**Ioga** – bob nos Fercher am 6.00yh yng Nghwrt Insole o 24 Medi. 10 sesiwn am £80.


Cronfa Ddŵr Llanisien

**Hen Ffefrynnau**

Bydd **Y Gerddorfa Ukulele** yn cwrdd eto yng Nghanolfan Chapter ar nos Fercher, 24 Medi am dymor o 10 wythnos. Y gost yw £85 ac mae croeso i aelodau newydd.

Bydd y sesiynau **Cynganeddu** yn ail-ddechrau ar nos Fawrth, 7 Hydref gyda thri dosbarth ar gyfer gwahanol lefelau ac opsiwn i ymuno ar-lein. £98 am 10 sesiwn. Mae'r manylion llawn i'w gweld ar y wefan.

**Mewn Tiwn**

Cynhelir cyngerdd gymunedol yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina fore Llun, 29 Medi yng nghwmni'r gitarydd gwerin lleol Rhys Morris. Bydd y drysau ar agor o 11.15 ar gyfer paned o flaen llaw a'r gyngerdd yn dechrau am 11.30yb. Mae mynediad am ddim ond croesewir cyfraniadau.

**Ymweliad ag Archifau Prifysgol Caerdydd – Prynhawn Mawrth, 16 Medi am 2.00yp**

Cyfle i weld rhai o drysorau prin Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd ar daith y tu ôl i'r llen. Digwyddiad rhad ac am ddim.

**Clybiau yn y gymuned**

Bydd y Clwb i Oedolion gydag anghenion arbennig yn ail-ddechrau ar ddydd Mercher, 3 Medi, diolch i gymorth gan ein noddwyr hael, Cyfreithwyr Darwin Gray, Cronfa Sefydliad Dorothy Watkins, Ymchwil OB3 Research a Chapel Salem, Treganna. Bydd digon o ganu a chwerthin i'w cael yn y sesiynau ac mae croeso i aelodau newydd ymuno yn yr hwyl.

**Clybiau Plant**

Bydd **Amser Stori** i blant bach a'u teuluoedd yn ail-ddechrau mewn lleoliadau o gwmpas y ddinas gyda'r holl fanylion i'w gweld fan hyn:
mentercaerdydd.cymru/event-digwyddiadau/amser-stori-cy

Cofiwch am y Clybiau **Dawns a Drama** yng nghwmni Kim ac Anest ar gyfer plant oedran cynradd a gynhelir bob bore Sadwrn yn Festri Salem. Bydd y sesiynau'n dechrau ar 13 Medi gyda 2 sesiwn ar gyfer plant o wahanol oedrannau. Ewch i'r wefan am fwy o fanylion.

I gofrestru ar gyfer gweithgareddau i oedolion, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

I gael gwybodaeth am weithgareddau i blant: mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

*(parhad ar dudalen 31)*